
# Y DINESYDD

Ebrill 2019 | Papur Pobl Caerdydd a'r Fro | Rhif 436 £1


## DATHLU 70 MLYNEDD O ADDYSG GYMRAEG YN Y BRIFDDINAS td. 2 a 3





Eisteddfod yr Ysgol Farddol - td. 8

Teyrnged i Ruth Price - td.17

Dyddiadur y Deurodiwr - td. 18 + 19

Gwerthu Crys Rygbi Enwog - td. 24

Colofn y Dysgwyr - td. 6 a 7

Gwylio'r Geiniog - td. 7

Carden Post - td. 13

Bwytai Lowri Cooke - td. 21

# Y DINESYDD

**Golygydd:**
**Hefin Mathias**

***Golygydd Mai***
***Ioan Kidd***

Cyfraniadau erbyn 27 Ebrill i:
ioankidd@hotmail.com
3 Ceiriog Drive, Pantmawr,
Caerdydd, CF14 7TU
029 20657665

Y Digwyddiadur:
Yr Athro E Wyn James
JamesEW@caerdydd.ac.uk
16 Kelston Road, Caerdydd, CF14 2AJ
029 20628754

Hysbysebion:
Iestyn Davies
iestynd@gmail.com
15 Birchfield Crescent, Parc Victoria,
Caerdydd, CF5 1AE
07876 068498

Prif Ddosbarthwr:
Ceri Morgan
ceri33@btopenworld.com
24, Cwm Gwynlais, Tongwynlais,
Caerdydd, CF15 7HU
029 20813812 / 07774 816209

Tanysgrifiadau i:
Ceri Morgan
ceri33@btopenworld.com
24, Cwm Gwynlais, Tongwynlais,
Caerdydd, CF15 7HU
029 20813812 / 07774 816209

**www.dinesydd.cymru**
Cyhoeddir gan Bwyllgor y Dinesydd.
Nodir hawl y golygyddion i gwtogi
ar erthyglau yn ôl y gofyn.

Argraffwyr:
Gwasg Morgannwg, Castell-nedd
Cysodydd: Eirian Dafydd

Ariennir yn rhannol gan
Lywodraeth Cymru

Y Cyfryngau Cymdeithasol
Twitter: @DinesyddCdydd
Facebook:
www.facebook.com/YDinesydd


# Dathlu 70 mlynedd o Addysg Gymraeg yng Nghaerdydd

*Annwyl Ddinesydd,*

70 mlynedd yn ôl, gwireddwyd breuddwyd cylch bychan o ymgyrchwyr dan arweiniad Gwyn Daniel wrth i Gyngor Caerdydd agor Ysgol Gymraeg Caerdydd, mewn tair ystafell yn Ysgol y Bechgyn, Parc Ninian. 18 o blant a ddaeth yno at Miss Enid Jones a Miss Edwina Davies y bore cyntaf, Medi 5, 1949. Buan y tyfodd yr ysgol, a'i sefydlu yn Ysgol Bryntaf, ddiwedd tymor yr haf 1952. Dathlwyd cyrraedd y 100 disgybl ar Dachwedd 2, 1954.

Bellach, ymfalchïwn fod y cyw ysgol hwnnw wedi tyfu, ac esgor ar 17 o ysgolion cynradd Cymraeg a 3 ysgol uwchradd o fewn ffiniau'r ddinas. Mae Glantaf bellach wedi dathlu'r 40, a Phlasmawr 20 mlynedd o lwyddiant. Felly gwahoddwn holl ddarllenwyr **Y Dinesydd** i gyd-ddathlu'r pen-blwydd 70 mlynedd o Addysg Gymraeg yng Nghaerdydd gyda ni ar Fehefin 22, 2019.

Bydd yr Orymdaith Ddathlu yn ymgynnull ar Rodfa Edward VII, wrth ochr Neuadd y Ddinas, rhwng 9.00 a 10.00 y bore. Am 10.00, byddwn yn ymdeithio drwy strydoedd di-draffig Caerdydd i gyrraedd porth cefn y Castell ym Mharc Biwt am 11.00, er mwyn mynd i mewn i fwynhau TAFWYL. Gwahoddwyd pob ysgol Gymraeg yng Nghaerdydd, y Mudiad Ysgolion Meithrin a Rhieni dros Addysg Gymraeg, ac maent oll wedi cytuno i'n cefnogi.

OND, er mwyn i'r digwyddiad fod yn llwyddiant, mae angen eich cefnogaeth CHI; nid yn unig y disgyblion ac athrawon presennol, ond hefyd rhieni'r presennol a'r gorffennol, a'r miloedd o gyn-ddisgyblion a gafodd eu haddysgu yn ein Ysgolion Cymraeg dros y 70 mlynedd, sydd bellach yn rieni eu hunain, a nifer yn famgu a thadcu neu nain a thaid. Dowch i ddangos i bobl Caerdydd cymaint yw llwyddiant Addysg Gymraeg yn ein prifddinas! Bydd hon yn ffenest siop ardderchog i werthu'r syniad y gall pob teulu yn y ddinas fanteisio ar addysg drwy gyfrwng y Gymraeg i'w plant.

Apeliwn hefyd am unrhyw un sy'n fodlon cynorthwyo fel stiwardiaid ar gyfer ein taith. Tua 20 stiward sydd eu hangen, i sicrhau diogelwch wrth i ni orymdeithio. Bydd angen mynychu un cyfarfod yn unig, yn ystod yr wythnos cyn yr orymdaith, i ymgyfarwyddo â'r disgwyliadau a gofynion iechyd a diogelwch. Darperir offer a siacedi llewyrchol addas.

Os y byddwch yn fodlon ein cynorthwyo, cysylltwch yn ddi-oed gyda:

Iolo Walters 079 9089 3117 neu
iolo.walters29@gmail.com
neu Alwyn Evans 079 6864 9434 neu
alwynazo@me.com

Yn ddiffuant,

Alwyn Evans

(ar ran grŵp cyn-ddisgyblion 1949)



# RHAI O’R DISGYBLION CYNTAF



## Siopau sy’n gwerthu’r Dinesydd

**CABAN**, Pontcanna
**CANT A MIL VINTAGE**, 100 Whitchurch Rd.
**CHAPTER**, Treganna
**DERI STORES**, Rhiwbina
**GRIFFIN BOOKS**, Penarth

**NISA**, Heol Caerdydd, Dinas Powys
**PAPERWEIGHT**, 22 Wellfield Road
**SIOP BODLON**, Yr Hen Lyfrgell, Yr Ais
**SIOP Y FELIN**, Yr Eglwys Newydd
**VICTORIA FEARN GALLERY**, Rhiwbina

# Ysgol Pen y Garth

Mae wedi bod yn fis prysur iawn yn Ysgol Pen y Garth wrth i'r disgyblion gystadlu yn yr Eisteddfod offerynnol, Eisteddfod ddawns a CogUrdd. Braf oedd gweld cynifer o'r ysgol yn cystadlu yn yr Eisteddfod offerynnol. Llongyfarchiadau i Eleri Seagust a gafodd gyntaf yn y gystadleuaeth chwythbrennau ynghyd â Daniel Powell a ddaeth yn ail yn y pres ac i Josh Lewis a ddaeth yn ail ar yr offer taro. Llogyfarchiadau i'r grŵp dawnsio creadigol a ddaeth yn gyntaf ac i'r grŵp dawnsio disgo a ddaeth yn ail. Da iawn i Jac Scott Jones a fydd yn cynrychioli Ysgol Pen y Garth yng nghystadleuaeth CogUrdd.  Pob lwc i chi gyd yn y Genedlaethol.



*Criw dawnsio disgo Ysgol Pen y Garth*

# Ysgol Y Wern

**Cystadleuaeth Poster Cydraddoldeb Hiliol**

Llongyfarchiadau i Martha King ac Owen Frohawk am ennill y gystadleuaeth. Cafwyd noson wobrwyo yn Sain Ffagan yng nghwmni Jason Mohammad.

**Masnach Deg**

Yn ystod dathlu Pythefnos Masnach Deg gosodwyd sialens i'r ysgol i werthu 90kg o reis er mwyn danfon un plentyn i Ysgol Uwchradd yn Malawi. Llwyddwyd i fynd ymhellach na hyn drwy werthu 180kg. Diolch i bawb am eich cefnogaeth.


**Codi Arian**

Codwyd £542 ar gyfer ymgyrch Trwyn Coch. Diolch i bawb.

**Gymnasteg**

Llongyfarchiadau i Owain Griffiths a Rhys Griffiths a ddaeth i'r brig yn cynrychioli Caerdydd a'r Fro mewn cystadleuaeth i ysgolion Cymru. Da iawn fechgyn.

Llongyfarchiadau hefyd i dîm gymnasteg yr ysgol a oedd yn cynrychioli Cymru eto ym Mhencampwriaeth Gymnasteg Prydain yn Stoke. Fe wnaeth y tîm berfformio yn arbennig o dda.



*Owen Frohawk*

# Addysg Gymraeg – Yn Dal Ei Dir

Eleni roedd y sir yn disgwyl cohort cyfan o 4,286 disgybl newydd, ond dim ond 3,480 cais a dderbyniwyd yn brydlon erbyn mis Ionawr; o'r cyfanswm 722 ar gyfer Addysg Gymraeg, nifer sy dros 20% o'r cyfan a chanran sydd yn uwch nac unrhyw ganran flaenorol.

Er bod nifer y ceisiadau Cymraeg eleni yn debyg i'r nifer a dderbyniwyd yn ystod 2017 a 2018, mae nhw ar wasgar draws y ddinas i'r graddau fel mai dim ond pump ysgol lle mae'r ceisiadau yn fwy na'r lleoedd sydd ar gael, sef yn ysgolion Gwaelod-y-garth (7), Mynydd Bychan (4), Nant Caerau (21), Pencae (7) a'r Berllan Deg (1). Mae'n bur debyg mai ceisiadau hwyr sydd yn newid y darlun cyn y bydd y sir yn cynnig lleoedd i rieni yn ystod mis Ebrill. Erbyn mis Mawrth roedd cyfanswm y ceisiadau wedi cyrraedd 3,643 ond nid oes rhif ar gael am y cynnydd yn y ceisiadau Cymraeg.

Mae'r ceisiadau am le yn y ddwy ysgol gydag adeiladau newydd sef Glanmorfa a Hamadryad yn uwch na 30; felly mae'r ail ffrwd yn y ddwy ysgol yn dechrau llenwi. Prin bod hyn yn syndod i'r sawl sydd wedi gweld yr ysgolion yn eu holl hysblander newydd. Mae'r sir wedi ymateb i'r ffaith bod y ceisiadau am le yng Nglantaf a Phlasmawr yn uwch na'r lle sydd ar gael trwy gyhoeddi:-

1 bwriad i ehangu Plasmawr i saith ffrwd (210 lle) erbyn 2020 neu 2021.

2 bwriad i agor y bedwaredd Ysgol Gymraeg uwchradd o fewn y deng mlynedd nesaf.

Mae'r cynnig cyntaf yn dderbyniol i RhAG ond nid yw yr ail gynnig. Mae'r sir eisoes yn cynnal 28 ffrwd yn y sector cynradd a'i bwriad yw agor tair ffrwd arall o fewn y tair blynedd nesaf. Er ei bod hi'n wir i ddweud nad yw pob lle yn llawn ar hyn o bryd, yn 2016 roedd 25 ffrwd yn llawn, a 24 ffrwd yn 2017 a 2018. Bydd plant newydd 2016 yn ymgeisio am le uwchradd erbyn 2024; mae angen y bedwaredd ysgol erbyn 2024 nid yn 2029 neu 2030. Mynnodd Eluned Morgan fod Caerdydd yn darparu gwelliant i gynllun addysg 2017-20 i gynnwys gwaith i baratoi ar gyfer ychwanegu at y ddarpariaeth uwchradd o 2022 ymlaen. Bydd RhAG yn pwyso ar y sir i gadw at y cynllun statudol.

*Michael Jones*



# Gardd yn Ninas Caerdydd

Braint arbennig iawn i Eleri a minnau oedd derbyn gwahoddiad gan Gwmni Tinopolis (Cynhyrchydd Sioned Geraint) i gyflwyno ein gardd yng Nghwm Eithin, Heol Sant Mihangel, Llandaf, fel rhan o gyfres S4C, *Pobol a'u Gerddi*, yn gynharach eleni.

I bawb a anfonodd air o werthfawrogiad, canmil diolch.

Daeth yr ardd i'n meddiant yn 1968. Bryd hynny roedd ynddi wyth o goed afalau ac un goeden gellyg (neu 'bren rwnins', fel y galwai Eleri'r goeden hon – yr enw yn ardal Dyffryn Ceiriog); rhan ar gyfer tyfu llysiau; gwrych trwchus drwy ganol yr ardd; a mwy na digon o lwybrau concrid caled.

Bellach, daeth tro ar fyd. Mae'r pwyslais nawr ar dir glas ac amrywiaeth o blanhigion ac ychydig flodau. Fy niddordeb arbennig i yw lliwiau'r planhigion (cyfuniad o wyrdd, melyn a choch yw'r ffefryn); ffurf y dail a'r brigau; a'r teimlad wrth eu cyffwrdd. Pwy, er enghraifft, na all beidio â rhyfeddu wrth fodio'n dyner ddail mawr, melfedaidd, y Ffatsia (*Fatsia japonica*), gyda'r gwythiennau'n gwau mor gain drwy bob deilen?

Diddordeb arbennig arall yw cyfoeth enwau Lladin, Cymraeg a Saesneg y planhigion, megis y *Cotoneaster horizontalis*: 'Llwyn Asgwrn Pysgodyn' (oherwydd fod ei frigau yn debyg i asgwrn cefn pennog).

Dros flwyddyn yn ôl bu raid gwaredu coeden fytholwyrdd drwchus a thal o'r ardd, er mwyn gosod palmant newydd o gerrig gleision. Gwelir gwreiddiau mawr y goeden gonwydd hon yn y llun presennol. (Cyhoeddir drwy garedigrwydd y naturiaethwr, Duncan Brown, a Gwefan Llên Natur.) Yn y llun hefyd gwelir ffwng, neu fadarch, lled brin oedd yn tyfu (ym mis Tachwedd 2017) ger y goeden fytholwyrdd, sef y *Lepiota:* 'ambarelo', neu' barasôl cennog'.

I mi y mae gardd yn ddelwedd o brydferthwch bywyd. Gwaith caled, cyson, yw gofalu amdani, ond gwaith sydd hefyd yn hyfrydwch heb ei ail. A dyna'r hyfrydwch pennaf i Eleri a minnau yw cael rhannu prydferthwch a gwynfyd yr ardd ag eraill. Am i mi gael cyfle i wneud hynny nawr gyda darllenwyr *Y Dinesydd*: diolch o galon.

*Robin Gwyndaf*



***Fatsia japonica***

# Cwmni'r Dysgwyr



*"Hyfryd yw derbyn cyfraniadau gan ein dysgwyr brwdfrydig – daliwch ati !"*

## Gwilym Dafydd



## Gair gan Matt Spry Dysgwr y Flwyddyn

**Iechyd meddwl, pwysigrwydd siarad ac adnoddau Cymraeg**

Mae'n ddrwg gen i nad ysgrifennais i golofn ar gyfer y rhifyn diwethaf. Dw i wedi bod yn sâl iawn – cyfnod arall o iselder eithafol, y gwaethaf ers blynyddoedd. Ydy hi'n briodol fy mod i'n sôn am hyn yma? Ydy, byddwn i'n dweud. Mae pethau wedi gwella dros y blynyddoedd ond mae dal cryn dipyn o stigma/tabŵ yn gysylltiedig â phroblemau iechyd meddwl ond yn ôl Iechyd Cyhoeddus Cymru mae tua chwarter y boblogaeth yn profi problemau iechyd meddwl. Hunanladdiad yw'r lladdwr unigol mwyaf o ran dynion ifanc yng Nghymru.

Felly mae'n hanfodol ein bod ni'n siarad am iechyd meddwl a gwneud yn siŵr ein bod ni'n creu cymdeithas ble mae pobl yn teimlo'n gyfforddus i siarad am bethau felly. Mae'n hanfodol ein bod ni'n pwysleisio ei bod hi'n iawn i siarad a'n bod ni'n annog pobl i siarad a rhannu problemau a phrofiadau. Galla i gyfrannu drwy sôn am fy mhrofiad i pan mae'n briodol ac yn berthnasol - gobeithio y gall hyn wneud i rywun arall deimlo fel y gallan nhw siarad. Mae'n bwysig hefyd ein bod ni'n codi ymwybyddiaeth am gyflyrau ac am adnoddau sydd ar gael i helpu pobl, yn enwedig yn y Gymraeg.

Ni wn i ddigon am ddarpariaeth Gymraeg (neu ddiffyg darpariaeth Gymraeg) yng ngwasanaethau Iechyd Meddwl i sôn amdani yma ac mae'n astudiaeth ddirfawr ynddi hi'i hun!

Fodd bynnag galla i adael i chi wybod am rai o'r adnoddau Cymraeg sydd ar gael. Mae gan y sefydliadau hyn bresenoldeb ar y cyfryngau cymdeithasol hefyd.

Mae meddwl.org yn wefan sy'n darparu gwybodaeth am anhwylderau iechyd meddwl, triniaeth, gwybodaeth am ble i gael gymorth, gwybodaeth ar gyfer teulu a ffrindiau rhywun sy'n profi problemau, gwybodaeth am hunan-ofal, cyfle i ddarllen am brofiadau personol, newyddion, straeon byrion, erthyglau a llawer mwy. Mae'r rhan fwyaf o'r cynnwys yn cael ei greu gan bobl sydd wedi wynebu anhwylderau iechyd meddwl eu hunain.

Mae Amser i Newid Cymru'n canolbwyntio ar ymgyrchu 'i roi diwedd ar stigma a gwahaniaethu ar sail iechyd meddwl yng Nghymru'. Maen nhw'n rhedeg ymgyrchoedd ar wahanol bynciau yn y maes a chynnal digwyddiadau i godi ymwybyddiaeth. Maen nhw'n gwneud llawer o waith ynglŷn ag iechyd meddwl yn y gweithle. Ceir llawer o wybodaeth ar eu gwefan hefyd am wahanol broblemau iechyd meddwl a chymorth, straeon personol ac adnoddau am ddim ar gyfer unigolion, sefydliadau a phobl ifainc.

Mae gan wefan Mind adran Gymraeg. Ceir llawer o wybodaeth am wahanol fathau o broblemau iechyd meddwl a chanllaw am sut i ofyn am help ar gyfer problemau iechyd meddwl. Mae'r wefan yn dweud eu bod nhw'n cyfieithu mwy a mwy o wybodaeth i'r Gymraeg.

Diolch yn fawr iawn am ddarllen – mae'n bwnc sy'n bwysig i fi. Mae dolenni i'r gwefannau a manylion am y Samariaid isod.

https://meddwl.org/

https://www.timetochangewales.org.uk/cy/

https://www.mind.org.uk/information-support/gwybodaeth-iechyd-meddwl-gymraeg/

Samariaid: Llinell Gymraeg 0808 164 0123 (7yh i 11yh, 7 niwrnod yr wythnos). Llinell Saesneg 0808 116 123 (24/7). Os yw'n argyfwng ffoniwch 999.

Diolch yn fawr iawn Matt am hwn a chroeso nôl i dudalen Cwmni'r Dysgwyr. Fel y gwyddost ces i 6 mis o iselder ysbryd diwedd 2015 a dechrau 2016. Fel dwedaist, mae siarad am hwn mor bwysig. Dwedaf unwaith eto, rydw i yn fodlon aros ymlaen wedi clonc dysgwyr dydd Llun, 1-2.00 yn Llaeth a Siwgr a dydd Gwener 1-2.00 clonc Caffi Zest Jams Hywel, os oes unrhywun am drafod hwn yn Gymraeg neu yn Saesneg gyda fi. Croeso i chi gysylltu gyda fi Gwilym Dafydd eirianagwilym@gmail.com



*criw o ddysgwyr yn Nant Gwrtheyrn*

# Gwylio'r Geiniog

"Mae cynllunio ymlaen yn medru safio Treth Etifeddiaeth."

## Huw Roberts



Trwy aros o fewn y rheolau safiodd y diweddar Tony Benn a'i deulu £200,000 o dreth etifeddiaeth. Yr oedd yn ddiarydd ac fe roddodd ei archif i'r wlad. Fel rhodd i'r wlad gwerth £500,000 nid oedd angen talu treth etifeddiaeth. Y neges wrth y sosialydd mawr yw bod canllawiau cyfreithlon a chynllunio ymlaen yn medru safio Treth Etifeddiaeth.

Os oes gennych gwmni llwyddiannus neu gapel neu elusen gefnog gallwch gynyddu symiau mawr o arian. Nid yw'r banciau yn cynnig braidd dim o log ond mae sefydliadau eraill fel Virgin Money / Nationwide yn cynnig llôg o dros 1% - £1,000 yn ychwanegol ar £100,000 o fuddsoddiad.

*Mae Huw yn gyfrifydd sy'n arbenigo mewn treth incwm, ewyllysiau a gwaith profiant.*

***Gofynnwch i Huw***: Pryd fydd angen Profiant *(Probate)* ar y farwolaeth gyntaf o bâr priod? Mae'r aelwyd yn enw'r ddau briod.

Bydd eiddo asedion ar y cyd (cartref / cyfrifon banc yn enw'r ddau) yn mynd i'r priod o dan reolau *'survivorship'* heb angen profiant.

Ond ble mae asedion o dan un enw bydd rhai cwmnïoedd ariannol angen profiant. Mae'r symiau yn amrywio, £10,000 i un cwmni, efallai £20,000 i gwmni arall.

Os oes gennych gwestiwn cyffredinol am y golofn anfonwch e-bost at huwrobertsaccountant@gmail.com neu trwy www.huwrobertsaccountant.cymru neu ffoniwch 029 2069 4524.

## Gair o Nant Gwrtheyrn - Janet Tabor

Yn ddiweddar, mwynheuais i wythnos wych yn Nant Gwrtheyrn. Roedd y glaw yn drwm iawn a chwythodd y gwynt yn gryf, ond roedd y croeso yn ystod y cwrs yn gynnes. Yn ogystal â'r gweithgareddau dyddiol, mwynheuon ni dri digwyddiad gyda'r nos. Sgwrs am ystyr enwau lleoedd Cymraeg gyda Twm Elias, profiad dawnsio gwerin Cymreig ac ymweliad â'r theatr i weld Y Gadair Wag sef Stori Hedd Wyn. Roedd cyfle hefyd i gwrdd â phobl leol a threulio amser yn sgwrsio yn Gymraeg. Roedd un ar ddeg ohonon ni yn y grŵp. Daeth dau o dramor - Yr Almaen a Gwlad Belg. Yn y gorffennol roedd chwarel Nant Gwrtheyrn yn gweithio ac roedd y gweithwyr yn byw yn y bythynnod. Nawr mae'r bythynnod hyn yn llety i ymwelwyr. Roedd llawer o hanes i archwilio a mwynhau a golygfeydd gwych o'r arfordir. Roedd e'n brofiad anhygoel.

## Gair gan Sue Biggin
## Ar Lan y Môr



Christian, Annick a Daniel

*Ar beth maen nhw'n edrych?*
*A ble yn y byd dyn ni?*
*Dw i'n meddwl bod chi'n nabod y traeth hwn. Gawn ni weld...*

Sŵn ofnadwy, glaw, dillad gwlyb, torfeydd – gwych! Ron i gyda grŵp o ffrindiau o Ffrainc oedd wedi dod i Gymru am benwythnos arbennig. Roedden nhw'n dod i gymryd rhan yn rasus record cyflymder y byd ar draeth enwog. Maen nhw'n cael eu trefnu ddwywaith y flwyddyn.

Roedd hi'n benwythnos diwedd mis Medi. Cyrhaeddodd fy ffrindiau mewn dau gar gyda threlars ar gyfer eu beiciau modur. Roedden nhw wedi rhentu carafan y tu ôl i'r traeth, ym mharc gwyliau y pentre. Arhosais i mewn gwesty yn agos atyn nhw.

Roedd dydd Sadwrn yn braf. Aethon ni i gofrestru ein criw. Trefnwyd y rasus i ddechrau yn y prynhawn, ond yn gyntaf cawson ni ginio gyda gwin coch, patè (wel, Ffrancwyr dyn 'ni'!). Roedd y rasys yn para drwy'r prynhawn cyfan. Roedd pawb yn ceisio torri'r record mor aml â phosib.

Yn y pen draw torrodd Christian - sy'n gwisgo coch yn y llun ar y chwith - ei record byd ei hun, tra daliodd ei bartner Annick ei record.

Roedd y beic yn seren y sioe wrth gwrs. Hyfryd iawn. Y bore nesa roedd hi'n bwrw glaw yn y bore, ond aethon ni yn hwyrach i lawr i'r traeth am sesiwn ffoto. Wedyn aethon ni i'r carafan i agor y siampên ac i ddathlu. Dyna ddiwedd penwythnos perffaith ar y traeth. Welwn ni chi yno y tro nesa, ym mis Mai?

*Ble buon ni?*
*Dych chi wedi dyfalu eto?*
*Wrth gwrs, ym Mhentywyn, Sir Gaerfyrddin!*
*Penwythnos ar y traeth.*



*... seren y sioe ein Peugot 1949, pencampwr ei gategori!*

# Pobol y Rhigwm

Y dasg ar gyfer rhifyn mis Ebrill oedd llunio cwpled caeth yn ymwneud â byd natur. Daeth cannoedd o gynigion i law unwaith eto, felly mae'n amlwg fod llewyrch ar y canu caeth yng Nghaerdydd. Dyma gyhoeddi'r goreuon mewn un swp, gyda rhai sylwadau am bob un ar y diwedd.

Yn ebrwydd ein Ebrill lu
Ddaw'n goelcerth ar ein perthi.
Briallen

Yn ein gwanwyn daw'n gwennol
Gobeithio, i'n bondo, 'nôl.
Teulu Sgubor Fach

Gwenu 'rwyf pan ddaw'r Gwanwyn
I liwio'r magnolia'n wyn.
Robin Goch

(Er bod y magnolia cyffredin yn blodeuo'n binc, mae'r llwyn Magnolia Stellata yn fy ngardd yn blodeuo'n wyn).

Rhedwn ymysg y rhedyn
Unwaith; ysywaeth rwy'n hŷn.
Oed yr Addewid

Sain ei deunod sy'n dannod
Na fydd, un dydd, eto'n dod.
Gwas y gwcw

Mae cwpled Briallen yn anghywir – ni chaniateir i gynghanedd draws neu groes arferol fod yn esgynedig ac ni ellir rhoi cynghanedd Lusg yn ail linell cwpled. Mae ail linell Teulu Sgubor Fach yn amheus – mae'r 'b' yn bondo'n syrthio mewn lle amlwg cyn yr acen a honno heb ei hateb. Mae eiddo Robin Goch yn gywir, er y byddai rhai'n dadlau nad yw 'gwanwyn' yn odli â 'gwyn', gan mai '-wyn' yw'r odl... ond bod yn bedantig yw hynny. Mae'n dibynnu ar y troednodyn i wneud synnwyr.

Codi i dir uwch y mae cwpled Oed yr Addewid... Byddai wedi bod yn hawdd achub rhag proest yn y llinell gyntaf, ond eto, dyma gwpled clir ei ystyr a'i ergyd, sy'n dwyn i gof gampau Teresa'n rhedeg drwy'r caeau ŷd yn ei hieuenctid ffôl. Fodd bynnag, saif cwpled Gwas y gwcw ben ac ysgwydd uwch y lleill. Mae'r bardd yn pryderu mai dyma'r tro olaf y caiff glywed y gwcw neu efallai na fydd y gwcw i'w chlywed eto oherwydd dinistr byd natur. Dyma gynnig ardderchog, ac mae'n llawn haeddu'r wobr gyntaf y tro hwn.

**Enillydd tasg rhif 20 yw**
**Peter Griffiths, Pentyrch**

Y dasg ar gyfer rhifyn mis Mai (tasg 21) yw limrig yn cynnwys y llinell 'Peth anodd i mi yw heneiddio', gan obeithio am limrigau llawn dwli safonol.

Anfonwch eich cynigion, yn ôl yr arfer at db.james@ntlworld.com **erbyn 18 Ebrill 2019.**


*Emyr Davies*

# Eisteddfod Ysgol Farddol Caerdydd

Trwy fisoedd y gaeaf bu dosbarthiadau'r Ysgol Farddol yn cyfarfod yn gyson gan gael hyfforddiant arbennig ar y grefft o gynganeddu gan ddau diwtor brwdfrydig, Emyr Davies a Gruffudd Eifion Owen. Pinacl y flwyddyn yw'r eisteddfod farddol, a gynhaliwyd eleni yn Yr Hen Lyfrgell. Bu'r beirdd wrthi'n brysur yn ddiweddar yn cyfansoddi limrigau, llinellau a chypledau o gynghanedd, cywyddau, englynion ac englynion digri a chafodd y beirniad, y prifardd Idris Reynolds, dipyn o gur pen wrth benderfynu pwy oedd yn haeddu'r wobr gyntaf mewn sawl cystadleuaeth.

Uchafbwynt y noson oedd y seremoni gadeirio. Eleni am y drydedd flwyddyn yn olynol, enillydd y gadair oedd Rhys Powys. Tipyn o gamp yn wir! Yn ail agos iawn iddo 'roedd John Lloyd o Gaerfffili ac yn drydydd Iwan Steele o Gaerdydd. Llongyfarchiadau mawr i'r tri ohonynt am gywyddau rhagorol ar y testun 'Storm'. Roedd y tri wedi dehongli'r testun mewn ffordd wahanol iawn, gan gyfansoddi cerddi gafaelgar.

Diolch i Fenter Caerdydd am drefnu'r noson, i Idris Reynolds am feirniadu mewn dull hwyliog, cartrefol ac adeiladol, ac i Emyr a Gruffudd am eu cyngor gwerthfawr a'u hamynedd gyda'r darpar feirdd.



***Emyr Davies, Idris Reynolds, Gruffudd Eifion Owen a Rhys Powys***



## Lansio Cyfrol:
## Llenydda, Gwleidydda a Pherfformio

Nos Lun 4 Mawrth yn y 'Little Man', Caerdydd fe lansiwyd y seithfed gyfrol yn y gyfres 'Astudiaethau Athronyddol' gan y golygydd, Gwynn Matthews. Teitl y gyfrol yw *Llenydda, Gwleidydda a Pherfformio*, y cyhoeddwyr yw'r Lolfa, a'r pris yw £7.99.

Yn ystod y cyfarfod bu Grug Muse yn holi'r Athro Howard Williams am yr elfen athronyddol sydd i'w chanfod ym marddoniaeth T.H. Parry-Williams, a holwyd Adam Price gan Huw Rees ar ei ddehongliad o Gymru fel trefedigaeth. Yna bu panel o athronwyr ifanc, Garmon Iago, Rhianwen Daniel ac Owain Rhys Lewis yn trafod y cysyniad o 'werth' y Gymraeg, yn arbennig yng nghyd-destun datganiadau Llywodraeth Cymru ar y polisi o sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn canol y ganrif.



*panel yr athronwyr ifanc – Garmon Iago, Rhianwen Daniel, Owain Rhys Lewis.*

Mae chwech o ysgrifau yn y gyfrol, sef: 'T.H. Parry-Williams ac Athroniaeth' (Howard Williams), 'Rheswm a Hen Chwedlau: Cyngor Jac Glan -y-Gors' (E. Gwynn Matthews). 'A Oes Dyfodol? Trafod Sosialaeth Gymreig o safbwynt hanesyddol' (Huw L. Williams), 'Newyddion Ffug' (Steven D. Edwards), 'Perfformio a Ffenomenoleg: Cof, Corff a Chapel' (Rhiannon M. Williams) 'Y Llwyfan Diderfyn: Benjamin, Habermas a Chomedi' (Dafydd Huw Rees). Ac eithro'r Athro Steven D. Edwards, mae'r awduron oll yn byw yng Nghaerdydd a/neu gyda chysylltiad â Phrifysgol Caerdydd.

Cyhoeddir y gyfres, gyda nawdd Prifysgol Cymru a'r Cyngor Llyfrau, gan Adran Athronyddol Cymdeithas Cyn-fyfyrwyr Prifysgol Cymru (Urdd y Graddedigion gynt), a threfnwyd y lansiad gan yr Adran. Y Llywydd presennol yw Dr Huw L. Williams, darlithydd cenedlaethol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol mewn Athroniaeth, ac mae wedi ei leoli ym Mhrifysgol Caerdydd.

Mae'r gyfrol bellach wedi cyrraedd y siopau !

# Cymrodorion Caerdydd

## Carwyn Jones
## Cyn Brif Weinidog Cymru

"Mae llawer o waith i'w wneud o hyd." Dyna oedd byrdwn darlith Carwyn Jones wrth iddo drafod gwaith y Cynulliad Cenedlaethol. Gan osod y Cynulliad yn ei gyd-destun hanesyddol, pwysleisiodd gymaint o fwlch sydd rhwng ein hanes modern ni, pan oedd Cymru namyn estyniad o Loegr, a chreu sefydliad cenedlaethol nad yw'n ddim llai na gwyrth gyfansoddiadol.

Disgrifiodd ddyddiau cynnar y Cynulliad pan oedd yn gorff diddannedd, a thanlinellu'r cam mawr ymlaen a wnaed yn 2011 pan enillwyd galluoedd deddfwriaethol. Yng ngoleuni hynny, meddai, mae angen hawlio pwerau pellach, gan gynnwys meysydd datganoli gwasanaeth yr heddlu, y carchardai a'r gwasanaeth tân. Dywedodd fod system treth incwm ar gyfer Cymru yn destun trafod sydd yn hawlio gofal arbennig. Yn taflu cwmwl dros y cyfan, fodd bynnag, mae argyfwng Brexit, ac fe bwysleisiodd Carwyn mor andwyol y bydd hynny i economi Cymru, heb sôn am y goblygiadau ar gyfer y drefn ddatganoledig o drosglwyddo pwerau'r Undeb Ewropeaidd i San Steffan.



***Lona Roberts a Carwyn Jones***

Yn dilyn y ddarlith cafwyd nifer o gwestiynau yn cynnwys y posibilrwydd o gyfansoddiad ffederal, agwedd Jeremy Corbyn tuag at Gymru, cwestiynau ynghylch byd llywodraeth leol, ac agwedd y llysoedd a'r gwasanaeth sifil tuag at Gymru. Gan wneud llawn ddefnydd o'i brofiad helaeth fel Prif Weinidiog, pwysleisiodd Carwyn bod cryn amwysedd ac amrywiaeth yn agwedd sefydliadau San Steffan tuag at Gymru. Yn absenoldeb unrhyw ateb parod i fater Brexit, dywedodd fod y pwnc hwn yn llyffethair difrifol ar ddatganoli. Roedd hi'n fraint ac yn bleser cael gwrando ar wleidydd praff, cynnes a hynaws ei ffordd.

## Y Cyfryngau Cymdeithasol

**Cadwch mewn cysylltiad â'r Dinesydd ar Twitter trwy ddilyn ein cyfrif newydd @DinesyddCdydd, ac ar Facebook trwy ddilyn www.facebook.com/YDinesydd**

# Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd

Ar Nos Lun 18fed o Fawrth 2019 cawsom ni noson ryfeddol wrth i ni gynnal cystadleuaeth cyflwyniad gwyddonol i bobl ifanc ym mlynyddoedd olaf yr ysgol Uwchradd. Dyma y tro cyntaf i ni gynnal cystadleuaeth o'r fath a rhaid diolch i'r Sefydliad Ffiseg am gyfrannu at y gwobrau hael. Cyn sôn am y cystadleuwyr hoffwn ddiolch i'r beirniaid sef Yr Athro Arwyn Tomos Jones o Ysgol Fferylliaeth Prifysgol Caerdydd, Dr Eirian Dafydd gynt o Ysgol Cymer Rhondda a Dr Hefin Jones o Ysgol y Biowyddorau a Deon y Coleg Cymraeg Cenedlaethol - roedd gwaith anodd iawn o'u blaenau!

Yn gyntaf yn y drefn oedd Ffion a Meg yn siarad am Olyniaeth Ecolegol ac roeddent wedi paratoi cyflwyniad caboledig oedd yn cynnwys ffilm wedi'i animeiddio a grëwyd yn arbennig i'r gystadleuaeth. Nesaf daeth Sion oedd yn siarad am effeithiau microbau yn y coluddyn ar yr ymennydd - roedd e hefyd wedi paratoi cyflwyniad trawiadol oedd yn dod â'i destun yn fyw. Yna roedd Casi, a siaradodd yn hyderus am yr effaith Plasebo. Nesaf daeth Ffion gwahanol i sôn am *Biomimicry,* gwyddor sy'n ceisio datrysiadau cynaliadwy i heriau dynol trwy efelychu'r patrymau, strwythurau a strategaethau a geir ym myd natur. Aethon i fyd Mathemateg gyda Rhys yn sôn am Rifau Trosgynnol a defnyddiodd y bwrdd gwyn i ddangos ei frwdfrydedd amlwg am syniadau y mathemategydd Georg Cantor. Ac i gau, cawsom gyflwyniad ysgytwol gan Ffion arall eto yn sôn am 'Y Cymru a'u Cyffuriau' lle disgrifiodd effaith gwahanol gyffuriau ar yr ymennydd ynghyd â'u heffeithiau trychinebus ar gymdeithas.

Llwyddodd y beirniaid i benderfynu ar enillwyr ond roedd hi'n anodd dros ben! Yn y pen draw daeth Ffion a Meg a'i ffilm wedi'i animeiddio yn gyntaf, Sion a Ffion (Biomimicry) yn gydradd ail, a daeth Rhys, Casi a Ffion (cyffuriau) yn gydradd drydydd. Roedd yn noson yn llwyddiant mawr, ond os cawn nifer tebyg o gystadleuwyr tro nesaf, bydd angen rhagbrofion!





# Ar Ben y Lôn
## Idris Reynolds

*Ar ben y Lôn* yw'r gyfrol ddiweddaraf o farddoniaeth gan y Prifardd Idris Reynolds a enilloddd Lyfr y Flwyddyn yn 2017 am *Cofio Dic: Darn o'r haul draw yn rhywle*.

Mae *Ar Ben y Lôn* yn daith o gwmpas gorllewin Cymru sy'n cyflwyno cymeriadau, llefydd, digwyddiadau, a theimladau'r bardd ar amryw bynciau'r dydd.

**Ar ben y lôn**

Fan draw ar rostir awen – a erys
un sgwâr ar y gefnen?
A gaf ar hyd lôn gefen
delyneg o garreg wen?




Mae'r casgliad yn cynnwys cerddi sy'n talu teyrnged i enwogion fel Ray Gravell, ac Elin Jones AC, ac yn ymateb i sefydliadau adnabyddus megis Radio Sir Gâr, a Chanolfan Iaith Aberystwyth. Yn ogystal, mae'n dathlu'r pethau hynny sy'n cyfoethogi cymdeithas gan gynnwys chwaraeon a ffrindiau agos.

"Mae barddoniaeth a cherddi yn rhan hanfodol o hunaniaeth y Cymry ymhob cornel o'r wlad," meddai Pennaeth Cyhoeddi Gomer, Meirion Davies. "Mae'n bleser ychwanegu at draddodiad hir ein cenedl a chefnogi un o leisiau mwyaf adnabyddus de Ceredigion yr un pryd. Mae'n fardd i'w ardal ac i'r genedl gyfan"

**Ray Gravell**

Bydd un fu'n fwy na'i hunan – yn eisiau
o'r maes o hyn allan,
un ar goll o ferw'r gân,
un yn llai gan Gwenllïan.

Bydd *Ar Ben y Lôn* ar gael ddiwedd Mawrth 2019 mewn siopau llyfrau ac oddi ar www.gwales.com am £9.99.

Am wybodaeth bellach neu i drefnu cyfweliad ag Idris, cysylltwch â Sam Brown, Swyddog Marchnata Gomer, ar 01267 221400 neu sam@gomer.co.uk

# Cylch Cinio Cymry Caerdydd

Betsan Moses, Prif Weithredwr yr Eisteddfod Genedlaethol, oedd ein gwestai fis Mawrth. Daw Betsan o Bontyberem yn wreiddiol ac y mae wedi llwyddo i gael un o'r swyddi pwysicaf yn y Gymru sydd ohoni. Ar ôl graddio ym Mhrifysgol Aberystwyth ac ennill gradd meistr, cafodd Betsan yrfa ddiddorol ac amrywiol. Ar un cyfnod bu'n gweithio fel Rheolwr Cyfathrebu a Marchnata i'r Eisteddfod Genedlaethol ac yna yn y man dychwelyd i'r brif swydd wedi cyfnod gyda Chyngor y Celfyddydau.


Betsan Moses a Bill Davies

Gyda brwdfrydedd fe rannodd Betsan ei gweledigaeth ynglŷn â dyfodol yr Eisteddfod. Erbyn hyn mae'r Eisteddfod wedi datblygu i fod yn ŵyl o fewn gŵyl a dyma, yn bendant, brif ŵyl ddiwylliannol Ewrop. Cred Betsan fod celfyddyd yn greiddiol i greu cymdeithas wâr a theimla'n angerddol y dylem fod yn dathlu ac ymhyfrydu yn yr hyn sydd gennym.

Ble bynnag mae'r Eisteddfod mae yna waith yn dechrau beth bynnag dwy flynedd o flaen llaw. Daw â chymuned at ei gilydd gyda digwyddiadau codi arian, cyfleoedd gwahanol i ddysgu sgiliau newydd, datblygu pobol ifanc, a dod â budd economaidd i'r ardal leol. Mae yna ochor gymdeithasol i'r paratoadau hefyd ac y mae cyfle bob blwyddyn i chwalu'r hen ffiniau a sicrhau datblygiadau gwahanol. Yn ôl Betsan mae cael gweledigaeth leol yn bwysig, ac er fod rhaglen yr Eisteddfod yn un genedlaethol fe ddylai hefyd adlewyrchu'r ardal leol. Siawns hefyd y gwelir mwy o gyd-weithio rhyngwladol yn y dyfodol a heriau newydd.

Roedd brwdfrydedd byrlymus Prif Weithredwr yr Eisteddfod yn heintus, a chawsom i gyd ein sicrhau fod dyfodol ein gŵyl genedlaethol mewn dwylo diogel. Pob dymuniad da i Betsan Moses gyda'i gwaith.

***Bethan Moses, Prif Weithredwraig newydd yr Eisteddfod Genedlaethol, yng nghwmni'r llywydd, Bill Davies wedi'r cinio***

# Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd

Bu naws arbennig yng nghyfarfodydd mis Mawrth, gyda dathlu Gŵyl Dewi yng nghwmni y Parchedig Aled Gwyn ac ymweliad gan un o ferched Patagonia pythefnos yn ddiweddarach.


Aled Gwyn

Wedi mwynhau danteithion traddodiadol Cymreig – cawl, tarten afal a pice ar y maen a weiniwyd gan chwiorydd yr Aelwyd – eisteddwyd 'nôl i wrando ar Aled Gwyn. Gwnaeth ein tywys i gyplysu hanes cynnar ein Cymreictod a'r newidiadau a'i datblygiadau yn null dathlu Gŵyl ein Nawdd Sant. 'Roedd yn fraint i wrando ar ei wybodaeth eang a'i lais melodaidd yn cadarnhau'r pleser a'r anrhydedd o fedru dathlu'r Ŵyl fel Cymry.

Elvira Moseley (Austin gynt) o Baglan, Port Talbot oedd y siaradwraig ganol Mawrth. Cafodd ei geni yn Nhrevelin, tre fechan yng Nghwm Hyfryd yng nghysgod yr Andes, Patagonia. Cafodd fagwraeth hapus, yn llawn cariad yng nghwmni ei theulu, mam, tad a phedwar o fechgyn ac elfennau tebyg i fagwraeth ein cyndadau ni yma yng Nghymru yn amlwg yn ei disgrifiadau manwl. Yn 1965, adeg dathlu canmlwyddiant sefydlu y Wladfa, enillodd Elvira ysgoloriaeth i ddod i Gymru i astudio yng Ngholeg Harlech ac yna i Brifysgol Caerdydd i astudio Cymraeg a Sbaeneg. Bu'n byw yn yr Almaen am rai blynyddoedd wedi priodi Elmer Moseley a ganwyd iddynt ddau o blant cyn dychwelyd i ddysgu yng Nghymru. Cofir amdani yn ferch ifanc ar raglenni *Hob y Deri Dando*, *Disg a Dawn* ac fel tywysydd ar *Sion a Sian*. Bu'n brynhawn difyr iawn yn gwrando arni yn cofnodi ei phlentyndod ar y fferm deulu, yng nghymdeithas yr ardal a'r capel yn Bethel, Trevelin a hynny drwy gyfrwng y Gymraeg bob amser. 'Roedd tinc iaith soniarus y Wladfa yn amlwg wedi aros, er iddi fyw yn yr "Hen Wlad" cyhyd, a'i chymeriad byrlymus yn llonni calon pawb yn yr Aelwyd.


Elvira Moseley

## Y Dinesydd a'r Cyfryngau Cymdeithasol

**Cadwch mewn cysylltiad â'r Dinesydd ar Twitter trwy ddilyn ein cyfrif newydd @DinesyddCdydd, ac ar Facebook trwy ddilyn www.facebook.com/YDinesydd**

# Merched y Wawr Caerdydd

Dathlodd Mallt Anderson, un o aelodau mwyaf ffyddlon a brwd y gangen, ei phen-blwydd yn 90 oed ddechrau Mawrth. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da iddi! Gwyneth Briwnant Jones oedd llywydd cyfarfod 12 Mawrth pan ddathlwyd Gŵyl Dewi gyda cherdd ar lafar gan Glesni Whettleton a cherdd ar gân gan Caryl Roese, ynghyd â phice bach a llond lle o gennin Pedr hardd.



Owain a Gwyneth

Siaradwr y noson oedd Owain Lloyd. Gwas sifil yw Owain ac, yn gyffredinol, cysylltir y swydd honno â sobreiddrwydd ac â het bowler. Syndod felly oedd treulio noson yng nghwmni dyn ifanc ffraeth, doniol a hwyliog. Mae'n hanu o Aberdâr a chafodd y fraint o ddechrau ar ei yrfa pan sefydlwyd ein Cynulliad Cenedlaethol wedi refferendwm 1997. Bu'r sgwrs yn agoriad llygad i weithgaredd gweision sifil a'u perthynas â'r gweinidogion - dynion a merched â'u personoliaethau unigryw. Erbyn hyn, mae Owain yn arwain tîm sy'n gweithredu'r polisi gofal plant gyda phwyslais arbennig ar hawl plant i chwarae, a hynny mor llesol i'w datblygiad corfforol ac emosiynol. Cafodd gynrychioli Cymru mewn cynhadledd yn Seoul, De Korea, gwladwriaeth lle nad yw chwarae yn cael rhan o gwbl yn addysg plentyn. Defnyddiodd y cyfle, nid yn unig i sôn am flaengarwch Cymru yn y maes hwn, ond i hybu Cymru fel gwlad arbennig. Yn y gynhadledd, dangosodd luniau Cymry enwog ar sgrin a'r unig un oedd yn adnabyddus i'r Koreaid oedd Jade Jones, pencampwraig Taekwondo! Bu'n annog aelodau'r gangen i ymweld â Seoul, dinas ag iddi swyn arbennig.

Hyfryd oedd cael cwmni Val i'w chyfarfod cyntaf. Daeth i Gaerdydd o Brighton ac mae'n rhugl yn y Gymraeg.

# Merched y Wawr Bro Radur

Cawsom ddathlu Gŵyl Dewi go iawn eleni yng nghwmni Cerddorfa Ukelele Caerdydd. Bu edrych ymlaen yn arw i'r noson a rhai ohonom yn clywed y gerddorfa yn perfformio am y tro cyntaf. Sefydlwyd y gerddorfa yn 2013 dan arweiniad Mei Gwynedd, ac mae'r aelodaeth wedi cynyddu'n flynyddol.

Dechreuodd y gerddorfa gyda datganiad o gân y mudiad, 'Ein Hiaith a'n Gwlad', ond fersiwn tra gwahanol i'r arfer! Roedd yr hwyl a'r asbri yn heintus a'r aelodau'n ymuno i ganu'r ffefrynnau megis y shanti 'Rownd yr Horn', 'Dwi isho bod yn Sais', 'Safwn yn y Bwlch', 'Moliannwn', 'Ar lan y môr' a 'Ceidwad y Goleudy'. Braf oedd cael anghofio popeth ac ymgolli yn y caneuon hwyliog.

Paratowyd amrywiaeth o fwydydd gan y swyddogion, ac yr oedd y cyfan wedi'i weini'n ddeniadol gyda digon o gennin Pedr i'n hatgoffa ein bod yn dathlu gŵyl ein nawddsant.

Cofiwn am y paratoadau sydd gan y gangen ar gyfer dathlu **Gŵyl Wanwyn Rhanbarth y De Ddwyrain** o'r mudiad ar Mai 4ydd am 2.30 y prynhawn yng Nghwrt Insole. Mae tocyn am yr adloniant a'r tê pnawn yn y safle arbennig yma am £5 ac ar gael gan Ruth Davies (02922 211407) ac Ann Lewis (02920 564339).



.



Cerddorfa Ukelele Caerdydd

# CERDYN POST O GAERGRAWNT

## Lowri Haf Cooke yn holi Aled Charles

*Mae Aled Charles yn wyddonydd gyda chwmni AstraZeneca yng Nghaergrawnt. Mae e'n byw yno gyda'i wraig, Melanie, a'u tri o blant: Alice a Carrie (sy'n efeilliaid 7 oed), ac Owen (sy'n 4 oed).*

**Un o ble ydych chi yng Nghaerdydd, a beth yw eich hoff atgofion o'r ddinas?**

Rwy'n dod yn wreiddiol o Barc y Rhath - es i Ysgol Y Wern ac Ysgol Glantaf. Ymysg fy hoff atgofion cynnar yw seiclo i Barc Y Waun gyda fy ffrind gorau Eifion, a chwarae yn y goedwig a mwynhau gemau o *pitch and putt*. Roeddwn i hefyd yn mwynhau chwarae i Glwb Rygbi Caerdydd, ac wedyn i dîm rygbi Ysgol Glantaf. Roedden ni'n dîm llwyddianus iawn, a ges i bleser mawr yn cwrdd â phobol o bob rhan o'r ddinas, a theithio o amgylch y byd. Yn hwyrach, ges i lot o hwyl mewn partïon ledled y ddinas, gan dreulio llawer o nosweithiau yn y City Arms a Chlwb Ifor Bach. Gan fod Parc y Rhath mor ganolog, roedd popeth ar fy stepen drws. Ond ni fyddai un o'r atgofion hyn mor felys heb gwmni fy nheulu a'm ffrindiau.

**Pryd a sut lanioch chi yng Nghaergrawnt, a beth ydych chi'n ei wneud yno?**

Ar ôl astudio Cemeg ym Mhrifysgol Bryste, symudais i East Anglia i weithio i gwmni paent ICI. Ro'n i'n awyddus i weithio yn y maes fferyllol *(pharmaceutical)* a ges i swydd yn y diwydiant biodechnoleg *(biotech),* yn datblygu meddyginiaethau arbrofol. Yn fwyaf diweddar rwy'n gweithio ym mhencadlys AstraZeneca yng Nghaergrawnt fel rheolwr Ymchwil a Datblygu yn un o'r adrannau biofferyllol *(biopharmaceutical).* Rydw i dal yn gweithio yn y labordy, ac mae fy lab yn gyfrifol am bob cam yn natblygiad meddyginiaethau – o'r ymchwil cynnar a'r datblygu, i'r cynhyrchu a chefnogi ymchwil pellach, cyn i'r meddyginaethau gyrraedd y farchnad.

**Disgrifiwch eich diwrnod delfrydol yng Nghaergrawnt, o fore gwyn tan nos...**

Rydw i'n byw yn Great Shelford, ar gyrion y ddinas, felly hoffwn i ddechrau gyda brecwast yn y Shelford Deli. Y ffordd mwyaf hwylus i deithio i Gaergrawnt yw neidio ar gefn beic. Taith gyflym trwy'r campws Biofeddygol, heibio adeilad newydd AstraZeneca a'r Labordy Bioleg Moleciwlar (gyda'i 12 o enillwyr gwobrau Nobel!) cyn cyrraedd canol y dref. Ar ddiwrnod braf, y peth mwyaf delfrydol fyddai hurio 'punt' ar hyd yr afon Cam. Cyn hynny, rhaid trefnu picnic, a rhywbeth neis i yfed, a phrynu cacen o Fitzbillies (siop gacennau a fynychir gan Dons fel Mary Beard). Gadael prysurdeb y 'Backs' (sef cefn colegau'r Brifysgol) i'r twristiaid, ac anelu am ardal heddychlon Grantchester. Os ydych chi'n 'byntiwr' da, mae na ddewis o dair tafarn yn Grantchester, neu ewch am de prynhawn i ardd de The Orchard yn lle. Dyma hafan sydd yn cydio yn naws academaidd Caergrawnt i'r dim; roedd yn ffefryn mawr gyda chyn-fyfyrwyr fel John Maynard Keynes, Alan Turing a Stephen Hawking – heb sôn am Virginia Woolf a'i Bloomsbury Set. Wedi pyntio nôl i Gaergrawnt, os oes egni ar ôl, mynd am swper yn The Chop House gyferbyn â Choleg King's. Yna wedi cymaint o yfed a bwyta, archebu tacsi i fynd adre – a phoeni am y beic yfory!

**Pa 3 lle yno y byddech chi'n annog i rywun o Gaerdydd a'r Fro eu profi, er mwyn cael blas go dda o'r ddinas?**

Cerdded o amgylch y colegau, a Chapel Coleg King's.

Taith ar 'punt' ar hyd yr afon heibio'r 'Backs' (rhaid gwneud o leiaf unwaith!)

Peint yn nhafarn yr Eagle, lle aeth Watson a Crick ar ôl darganfod DNA.

**Beth yw'r pryd bwyd gorau gawsoch chi yno?**

Yn The Cambridge Chop House – bwyd blasus, clasurol, cig lleol.

**Ble mae'r olygfa orau yno?**

Coleg King's, neu'r 'Backs'.

**Pan yno, beth ydych chi'n ei golli fwyaf am Gaerdydd?**

Teulu, ffrindiau a phobl y ddinas.






# NEWYDDION O'R EGLWYSI

## TABERNACL, YR AIS

**Cofio a chydymdeimlo**

Gyda thristwch, daeth y newyddion ar fore bedydd Gruffydd McVeigh fod Mrs Olive Cray, ei hen-famgu, wedi marw. Roedd Martin Cray a'i deulu yn y Tabernacl yn cefnogi Gruffydd a chydymdeimlwn gyda'r teulu oll yn eu profedigaeth.

**Lesotho**

Derbyniwyd neges gadarnhaol oddi wrth ein cyfeillion yn Lesotho wrth adrodd yn ôl ar y modd y gwariwyd yr arian wrth ystyried eu prosiect diweddaraf i addysgu pobl am ddulliau diweddaraf ym myd amaeth. Bydd y cyfeillion sy'n cofio Mopa a Timothy Makakane, cyn weinidog yr eglwys yn Sefica a'i briod, yn falch o glywed bod Mopa wedi cael prifathrawiaeth yr ysgol lle mae'n dysgu.

**Cymdeithas Nos Fawrth**

Fel arfer ar ddechrau Mis Mawrth cynhaliwyd Cinio Gŵyl Dewi'r Gymdeithas yn y festri gydag Owain Evans yn ŵr gwadd. Noson Sgitils yn Nhafarn y Grange oedd ail ddigwyddiad y mis a hynny'n dod â digwyddiadau'r Gymdeithas am y tymor i ben.

**Y Chwiorydd**

'Blodau'r Gwanwyn' oedd thema Ruth Davies ac Ann Williams a chawsom syniadau difyr ar sut i drefnu'r blodau mewn ffyrdd syml a chreadigol.

Prynhawn hollol wahanol a gafwyd gan Zorah Evans, a soniodd am ei nain yn mynd yr holl ffordd o Gaernarfon i Lundain i nyrsio mewn ysbyty meddwl. Gan nad oedd ei nain wedi siarad am y profiad, aeth Zorah i ymchwilio i hanes yr ysbyty ac roedd yr hanes yn hynod ddiddorol.

Darllen barddoniaeth o bob math wnaeth Eirlys Pritchard Jones, o'r lleddf i'r llon. Roedd rhai o'r darnau yn gyfarwydd a rhai yn newydd i'r gynulleidfa, ond roedd rhywbeth at ddant pawb.

**Llongyfarchiadau**

Mae'n braf deall fod Gwïon Rhisiart, mab Elena ac ŵyr Delun a John Callow, wedi ei ethol i Senedd yr Ifanc, a darlledwyd ei anerchiad cyntaf yn ddiweddar. Gwnaeth waith rhagorol ac yn siaradwr cyhoeddus tan gamp.

Hefyd llongyfarchwn Elinor Snowsill, ar ennill ei hanner canfed cap dros dîm merched Cymru wrth chwarae yn erbyn Merched Lloegr.



*blaenoriaid newydd Salem*

## SALEM, TREGANNA

**Gwasanaeth Gŵyl Dewi**

Diolch i'r ysgol Sul am wasanaeth arbennig a hyfryd oedd gweld y plant wedi gwisgo gwisg Gymreig. Cawsom gyflwyniad arbennig gan y bobl ifanc ar bwysigrwydd gwneud y pethau bychain. Hyfryd oedd mwynhau cinio gyda'n gilydd yn y festri ar ôl y gwasanaeth.

**Clwb y Bobl Ifanc**

Tennis bwrdd, gemau a chwis oedd yn mynd â bryd y bobl ifanc nos Wener 22 Mawrth, a chymdeithasu!

**Ordeinio Blaenoriaid Newydd**

Nos Iau 21 Mawrth ordeiniwyd 5 o flaenoriaid newydd i Salem, mewn gwasanaeth teimladwy yng nghapel y Crwys, gan ein gweinidog Evan, Llywydd y Sasiwn. Pob dymuniad da i bob un ohonoch wrth i chi ymgymryd â'r gwaith hollbwysig hwn. Diolch i aelodau Salem ddaeth draw i gefnogi.

**Cydymdeimlo**

Cydymdeimlwn yn fawr ag Elin Wyn a Catrin Roberts wrth golli eu tad, a hefyd Arfon Lloyd Jones wrth golli ei dad. Rydym i gyd yn meddwl amdanoch ar hyn o bryd yn eich colled.

## EGLWYS Y CRWYS

Trist oedd clywed am farwolaeth Mr Keith Jones. Bu Keith yn aelod ffyddlon a gwelir ei eisiau yn yr oedfaon boreol. Roedd wedi ymgartrefu yn Tŷ Llandaf ers ychydig o flynyddoedd. Rydym yn cydymdeimlo â'i briod, Mrs Eirwen Jones, ei blant Andrew a Sally a'i wyrion.

Llongyfarchiadau i Mrs Mallt Anderson ar gyrraedd pen-blwydd arbennig. Dathlodd ei 90 yng nghwmni ei theulu a'i ffrindiau. Pob dymuniad da iddi.

Mwynhaodd aelodau 'Prynhawn Da' brynhawn hyfryd yng nghwmni Mari Rogers yn sgwrsio ar 'Cwiltiau' Mae'r aelodau yn edrych ymlaen at eu taith i Abertawe a Bro Gŵyr ddiwedd Mawrth.

Daeth nifer i fwynhau Cinio Gŵyl Dewi y Gymdeithas yng Nghlwb Golff Caerdydd a chafwyd prynhawn difyr yng nghwmni y Siaradwr Gwâdd, Eilir Owen Griffiths. Diolch i Mrs Janet Phillips am drefnu gyda'r Clwb ac i Swyddogion y Gymdeithas am y paratoadau.

Mewn gwasanaeth hyfryd o Henaduriaeth Morgannwg Llundain a gynhaliwyd yn y Crwys, cawsom y fraint o dystio i ordinhad saith o flaenoriaid newydd i Eglwys Bresbyteraidd Cymru, ac yn eu mysg, Peredur Owen Griffiths a Hanna Thomas o Eglwys y Crwys. Bydd Cerian Angharad yn cael ei hordeinio mewn cyfarfod o'r Henaduriaeth yn y dyfodol agos. Pob dymuniad da iddynt.

Cynhelir Gwasanaeth Gwener y Groglith arbennig ar Ebrill 19eg gyda Côr Mizoram yn cymryd rhan. Gweinyddir Sacrament y Cymun o dan arweiniad y Parchg Robert Owen Griffiths.

Y Gweinidog fydd yn gwasanaethu ar Ebrill 7fed ac yn oedfa'r bore ar y 21ain. Bydd oedfa'r hwyr ar Sul y Pasg o dan ofal y Gymdeithas Ddrama. Fe wasanaethir ar Ebrill 14eg gan Mr Gwilym Tudur ac ar Ebrill 28ain gan Mr Emlyn Davies. Mae croeso cynnes i unrhyw un i ymuno â ni yn ein gwasanaethau.



*Cinio Cylch Dewi*

## EGLWYS DEWI SANT

**Cymdeithas Nos Iau**

'Dwy Wlad, Tair Crefydd' oedd teitl sgwrs y ficer, Y Parchedig Dyfrig Lloyd, i'r gymdeithas ar noson olaf Chwefror. Y ddwy wlad oedd Georgia ac Azerbaijan a'r dair crefydd oedd Cristnogaeth, Islam a Zoroastriaeth. Ymwelodd Dyfrig â hwy ym mis Hydref llynedd. Cafwyd, gyda chymorth lluniau a chryno ddisg, sgwrs hynod ddiddorol, addysgiadol a hwyliog ganddo. Mwynhawyd yr arlwy'n fawr.

**Gwasanaeth Gŵyl Ddewi**

Dydd Sul, Mawrth 3ydd cynhaliwyd Gwasanaeth Gŵyl Ddewi. Y pregethwr gwadd oedd y Barchedig Ganon, Dr Manon James sydd ar hyn o bryd yn Gyfarwyddydd Ffurfiant y Weinidogaeth Drwyddiedig yn Athrofa Padarn Sant, Llandaf. 'Roedd hefyd yn ymgynghorydd i gyfres drama S4C *Parch.* Byrdwn ei neges oedd fod angen gweithredu ar yr hyn a 'glywyd' ac a 'welwyd' gan Dewi. I ddilyn y gwasanaeth paratowyd pryd blasus o gawl a tharten afal yn neuadd yr eglwys gan Gylch Dewi. Hwy hefyd oedd yn gyfrifol am addurno'r eglwys yn chwaethus â blodau'r gwanwyn.

**Gwasanaethau Dydd Mercher y Lludw**

Cafwyd dau wasanaeth o'r Cymun Bendigaid ac Arnodiad Lludw yn ystod y dydd.

**Gwasanaeth Teuluol**

Gan ein bod yng nghyfnod y Grawys, dyna oedd thema y gwasanaeth ddydd Sul, Mawrth 10ed. Cafwyd anerchiad gan ein ficer a gweinyddwyd y sacrament o'r Cymun Bendigaid.

**Coffi a Chlonc**

Cynhaliwyd y bore coffi misol i'r dysgwyr fore Sadwrn, Mawrth 16eg. Daeth nifer dda ynghyd.

## BETHEL, PENARTH

Llongyfarchiadau gwresog i Beca Evans ar gael ei dewis yn aelod o garfan hoci Cymru dan-16. Bydd yn chwarae yn erbyn Yr Alban yn ystod gwyliau'r Pasg.

Cawsom achysur hwyliog a blasus ar Fawrth 5ed pan fu Emma a Sianmeinir yn ein bwydo â chrempog i nodi cychwyn Tymor y Grawys. Mil o ddiolch iddynt am eu gwasanaeth a arweiniodd at gasglu £240 at ein helusen am eleni, Prostad Cymru.

Diolch hefyd i Dean, gŵr Sianmeinir, oedd yn gweini'n hynaws wrth ddosbarthu'r crempog, ond och a gwae, i fod yn feiblaidd, drannoeth roedd ar ei orwedd yn dilyn cwymp a thorri esgyrn yn ei droed. Cydymdeimlwn gyda'r ddau ohonynt.

Buom yn drwm dan ddyled arall i Sianmeinir wrth iddi arwain ein gwasanaeth i ddathlu Gŵyl Dewi Sant ar Fawrth 3ydd. Pwysodd ar y dyfyniad cyfarwydd 'Gwnewch y Pethau Bychain', gan hoelio'n sylw, trwy ddefnydd dychmygus o'n cyfarpar gweledol newydd, ar enghreifftiau o rai 'pethau bychain', sy'n hawdd o fewn ein gallu i'w gweithredu.

Ar fore Sul Mawrth 10fed bu'n gweinidog yn agor ein myfyrdodau ar ddechrau Tymor y Grawys. Yn dilyn yr oedfa hon, cawsom achlysur pleserus iawn, wrth gymdeithasu, pan gyflwynwyd siec am £1500 i gynrychiolydd o'n helusen am 2018, Byd Oshi.

Ar Suliau Mawrth 17eg a 24ain cawsom oleuni pellach ar ystyr a her Tymor y Grawys yng nghwmni'r Barchedig Lona Roberts a'n gweinidog.

Gyda golwg dros y ffîn i fis Ebrill (ar y 7fed yn y prynhawn) byddwn yn cydlawenhau mewn oedfa fedydd i groesawu Elin Mair, un oed, i'n plith.

## BETHEL, RHIWBEINA

Yn ystod y mis i arwain ein gwasanaethau croesawyd Dr Eirian Dafydd, Mr Gwyndaf Roberts a'r Parchg Aled Edwards, ac i wasanaethu'r cymun, ein gweinidog y Parchg Evan Morgan. Aethom fel aelodau a chyfeillion i ddathlu Gŵyl Dewi yn y Caffi Bach yn Rhiwbeina. Yn ein plith oedd Mr Arfon Roberts gynt o'r Felinheli sydd wedi bod yn mynychu'r gwasanaethau ers peth amser ac ar fore Sul Mawrth 24 cawsom y pleser o'i dderbyn yn aelod o'r capel. Edrychwn ymlaen at ymweliad Mrs Ann Mears pan fydd yn rhoi arddangosiad trefnu blodau, ac ar Fai 14 cynhelir Bore Coffi yn y capel i godi arian ar gyfer Cymorth Cristnogol. Ar Ebrill 21 cawn gyfle i ymuno â'r gynulleidfa yn Salem i ddathlu Sul y Pasg.



*cyflwyno siec i Byd Oshi gan aelodau Bethel, Penarth*

## MINNY STREET

www.minnystreet.org @MinnyStreet
Gweinidog: Y Parch. Owain Llyr Evans
Estynnwn groeso i bawb – 'o'r ieuengaf i'r hynaf' – i'n hoedfaon ar y Sul (10.30 a 18.00). Y Gweinidog fydd yn arwain ein hoedfaon ar y tri Sul cyntaf yn y mis, gan gynnwys Sul y Pasg. Cawn y pleser o groesawu Aled Lewis Evans (Wrecsam) i arwain yr addoliad ar 28 Ebrill. Bydd Cymundeb 7 Ebrill yn y bore a Chymundeb Sul y Pasg yn yr hwyr. Bydd Ysgol Sul ar 7 a 28 Ebrill ac Oedfa Foreol Gynnar (9.30) ar 14 Ebrill. Yn methu dod i'r oedfaon? Ymunwch â ni drwy gyfrwng negeseuon trydar @MinnyStreet #AddolwnEf (ar Suliau'r Gweinidog), yn dechrau toc wedi 10:30/18:00
Ddydd Gwener y Groglith am 14.00, byddwn yn ymuno ag eglwysi Cymraeg eraill y brifddinas ar gyfer Oedfa'r Groglith, dan arweiniad y Parchedig Dyfrig Rees, yn Eglwys Dewi Sant.
Gallwn edrych ymlaen at gael ein hysbrydoli ymhellach gan ein Gweinidog yng nghyfarfodydd Y Grawys mewn lliw, llun a llinell. Bydd y rhain yn digwydd yn y festri nos Fawrth, 2, 9 ac 16 Ebrill am 19.30. Bydd cyfle yn y cyfarfodydd hyn i drafod arwyddocâd y Grawys drwy lygad bardd, arlunydd a cherddor. Ar ôl y Grawys, byddwn yn ailgydio yng nghyfarfodydd **Bethania**. Bydd y cyntaf nos Fawrth, 30 Mawrth am 19.30.
Bydd **Babimini** (ddydd Gwener, 5 Ebrill am 10.30), **Llynyddwch** (ddydd Gwener, 12 Ebrill am 10.00 yng nghaffi Terra Nova, Parc y Rhath), a **PIMS** (nos Lun, 29 Ebrill am 19.00) yn parhau. Cofiwch archebu ymlaen llaw i fwynhau **Koinonia** Mercher, 10 Ebrill am 12.00 a **Koinonia** nos Sul y Pasg, 21 Ebrill am 19.30.

## EBENESER

**Gŵyl Ddewi** Cawsom ginio Gŵyl Ddewi blasus yng Nghlwb Golff yr Eglwys Newydd ar 7ed Mawrth a sgwrs ddifyr gan Siân Thomas S4C. Diolch i'r gymdeithas am drefnu.
**Llan Llanast** Ar Fawrth 10fed daeth tua 25 o blant o amrywiol oedran i fwynhau awr fywiog o weithgareddau a chael lot o hwyl a sbri. Mae'r cyfarfod nesaf ar Ebrill 7fed am 10:00a.m. yng Nghanolfan yr Eglwys Newydd. Yn ystod y Suliau eraill mae'r ysgol Sul ond yn bur wahanol i'r hyn fyddech chi'n ddisgwyl. Beth am ddod i weld?
**Kenya** Ar nos Iau, 14 Mawrth siaradodd Cynan Llwyd am ei daith i Kenya gyda Chymorth Cristnogol. Cafodd gyfle i weld peth o'r wlad gan deithio i amrywiol bentrefi i weld prosiectau sy'n digwydd trwy bartneriaethau Cymorth Cristnogol. Diolch iddo am ein goleuo ble mae ein cyfraniadau'n mynd. Bachodd ar y cyfle hefyd i'n hatgoffa fod wythnos Cymorth Cristnogol ar Fai 12fed i'r 18fed.
**Bedydd** Ar fore Sul, Mawrth 17eg cafwyd achlysur arbennig gyda bedydd dwbl. Dau oedd yn gefnder a chyfnither i'w gilydd. Bedyddiwyd Leila-Medi Angharad merch Hannah a Sam Thomas ac Iorwerth mab Mari a Hamed Kamali.
**Angor Grangetown** Rhwng 6:00 ac 8:00 ar nos Sul, 17eg Mawrth dan adain Ebeneser cynhaliwyd noson ar destun 'Merched a'r Beibl' yng nghaffi 'Wild Thing' Grangetown. Ac yn well fyth roedd lluniaeth am ddim, sef dewis o fwyd fegan! Roedd dau siaradwr, Arfon Jones a Mari McNeill, Cymorth Cristnogol.
**Colli Cyfaill** Tristwch mawr i ni fel eglwys oedd clywed am farwolaeth Glan Roberts. Bu Glan yn aelod ffyddlon a diacon diwyd yn ein plith am ddegawdau lawer cyn symud i Langrannog. Diolch i'r Arglwydd amdano. Cydymdeimlwn gyda'i wraig Bethan, y plant Catrin, Elin ac Aled a'r teulu i gyd yn eu hiraeth.




# RUTH PRICE
# 1924 - 2019

*Wele isod grynodeb/addasiad o deyrnged y Parchedig Ddoctor R. Alun Evans yng ngwasanaeth angladd Ruth Price.*

I rai, dynes; i ni, lodes; iddi hi, roces o Sir Benfro oedd Ruth Price. Roces falch o'i gwreiddiau a'i magwraeth ym Mathri. O'r ysgol gynradd leol fe aeth Ruth i Ysgol Uwchradd Tŷddewi. Fe ddywedodd wrth ei chyfnither, Marged, y byddai weithiau'n mynd i'r ysgol ar gefn ceffyl.

O Dŷddewi, fe'i hyfforddwyd i fod yn athrawes yng Ngholeg Hyfforddi Abertawe. Wedi hynny bu'n dysgu yn Sir Faesyfed, Sir Benfro a Chaerdydd cyn ei phenodi'n Brifathrawes ar Ysgol Gymraeg Pontarddulais yn 1955. Roedd y gwrthwynebiad i addysg Gymraeg y pryd hynny'n chwyrn. Talcen caled oedd addysg Gymraeg ym Mhontarddulais, o bob man, ond trwy fod yn drefnus a chefnogol i blant yr ysgol gwelwyd fod graen ar ysgol Miss Price. Rhoddai bwyslais ar allu plant i ddysgu darnau helaeth o farddoniaeth ac adnodau o'r Beibl, gan eu hyfforddi i ddefnyddio'r gallu hwnnw mewn perfformiadau theatrig ac eisteddfodau.

Yn eisteddfodwraig frwd ei hun fe ddaeth Ruth yn gyntaf yn y brif gystadleuaeth adrodd i ferched yn Eisteddfod Genedlaethol Llangefni yn 1957. Mae'r ferch a ddaeth yn ail iddi, sef Rhiannon, yn wraig i mi ac yn ei halbwm mae llun ohoni yn llongyfarch Ruth ar ei buddugoliaeth. Bu'r ddwy yn feirniaid cenedlaethol am ddegawdau.

Ar yr un pryd gwnaeth Ruth enw iddi ei hun fel tipyn o rebel, *blonde bombshell* a ysmygai'n drwm. Cyfeiriwyd ati yn y *Daily Sketch* fel *"the Monroesque Headmistress".*

Ond mae'n debyg mai fel cynhyrchydd blaengar ym myd y cyfryngau y cofir Ruth yn bennaf, a chofnodir ei hanes fel ffigur allweddol yn natblygiad adloniant ysgafn yn llyfr Gareth Price, *'The Broadcasters of BBC Wales 1964-1990.'* Mae Gareth yn cofnodi ymffrost Ruth mai hi roddodd y cyfle cyntaf i Max Boyce, Mary Hopkin, Meic Stevens ac eraill ar raglenni fel *Hob y Deri Dando* a *Disc a Dawn*. A phwy na chlywodd am ddarganfod yr arch hip-hopiwr, Williams Pantycelyn, a'i emyn 'Pererin wyf' ar alaw 'Amazing grace' gyda llais godidog Iris Williams yn ddarganfyddiad ysbrydoledig arall, sef y gân a glywyd ar ddechrau'n gwasanaeth.

Yn ystod yr wythdegau cynnar fe briododd Ruth â Geraint Walters, a aned ym Mhatagonia ond a oedd erbyn hynny'n Gyfarwyddwr Adran yr Amgylchedd yng Nghymru. A dyna ddechrau pennod arall hapus yn hanes Ruth.

# Cymdeithas Edward Llwyd

Allt yr Esgair ger Talybont ar Wysg - Ebrill 2019

Un peth yw gyrru'n hamddenol o gwmpas ein gwlad a gwerthfawrogi golygfeydd arbennig ond mae llawer mwy i'w weld os dach chi'n penderfynu mynd ar droed. Dw i'n cael y profiad yma pob wythnos ac, yn well byth dw i'n mwynhau cwmni diddorol a llond diwrnod o siarad yr iaith. Un o'n teithiau diweddar oedd crwydro ar grib Allt yr Esgair ac edrych i lawr ar Dalybont tu draw i'r afon Wysg a oedd yn troelli ei ffordd yn hamddenol tuag at y môr a Chas-gwent.

Fel un sydd yn hoff iawn o grwydro efo camera dw i'n ymwybodol bod pob diwrnod yn cynnig golygfa wahanol yn yr un lle. Dyma sut oedd hi y tro yma. Gan ein bod ni mor uchel roedd y gwynt yn chwythu a'n llygaid yn dyfrio ond gan ein bod ni wedi gwisgo'n addas roedden ni'n glyd tu fewn. Digon clyd i weld y posibiliadau ar ddiwrnod clir a heulog. Beth bynnag yw'r tywydd mae'n braf bod yn yr awyr iach efo ffrindiau. Mi wnaeth y glaw gadw draw tan i ni fod yn ôl yn y ceir. Am adroddiad llawn am y daith ewch at http://www.gydangilydd.cymru/alltyresgair.htm

Yma yn y de bydd ein teithiau rhwng canol mis Ebrill tan ganol mis Mai yn mynd â ni i ardal Caerffili, Efailwen, Cas-gwent, Y Fenni a Wisemansbridge. Croeso i chi ymuno â ni, mae manylion llawn ar ein gwefan:
http://cymdeithasedwardllwyd.cymru/gweithgareddaur-de



# Dyddiadur Deurodiwr Dŵad

Na phoenwch, chi hen ddarllenwyr parchus "**Dinesydd**" y 70au sy'n cynhyrfu o weld pennawd sy'n adlais (bron) o'r gorffennol. Nid Goronwy Jôs sy di dŵad yn ôl i'ch poenydio, i'ch gwawdio, i dynnu blewiach o'ch trwyna, a gneud hwyl ar ben eich yrban shîc, wrth iddo chwilio'n ofer am yr hen *New Ely*. 'Mond rhyw feiciwr bach diniwad yn dŵad nôl o dro i dro, i droedio, neu a deud y gwir, i ddeurodio hen lwybra a gweld be di be yn 'rhen Ga'rdydd ma.

**"Dyred pan fynych, cymer a welych,**
**A gwedy delych, tra fynnych trig."**

Stopiais y beic rhwng hen walia llwyd a garw'r carchar a'r Atrium – adeilad modern, ffansi ag enw ffansi. Syllais yn syn ar wacter yr olygfa tua'r de. Doeddwn i ddim ar goll, mae'n chwaren bineal i gystal bob tamad ag un unrhyw gloman. A dwi di bod ma o'r blaen, …stalwm. Tasa hi'n ddydd Llun gwaith neu'n Sadwrn neu bnawn Sul siopa mi fasa'r lle'n orlawn o geir llonydd - yn y meysydd parcio ac ar y ffyrdd. Saffach di seiclo'n gynnar fora Sul, fel heddiw.

Unwaith, draw fancw rochr arall i Adam Street roedd 'na strydoedd: Ivor, Godfrey, Morgan, Garth a Duffryn – dim ond lôn fawr y Sentral Linc sy yno rwan. Draw fancw roedd 'na dai teras – llociau parcio gweigion sy yno rwan. Fancw hefyd roedd tafarn y Vulcan a adawyd fel rhyw ganiwt o ynys yn ceisio atal llif y chwalu a'r malu – cyn ei dadfeilio'n ofalus i'w chodi eto, fel ffenics, fan arall i'n diddanu ni'r 'genedl Sain Ffaganaidd'.

O leiaf mae Pellet Street yma o hyd. Nelais ati ac am ei hen Bont Haearn i groesi'r rheilffordd i'r 'ochr draw'. Ond fel bron popeth hanesyddol yn y ddinas hon fe chwalwyd y bont honno, felly croesais y tracia dros yr un newydd. Pont ddur, ddisglair, fodern sy'n glyfar iawn yn cynnwys grisiau sythion ond hefyd rampiau ar ffurf cylchoedd sy'n ddigon i'n gwneud ni feicwyr yn chwil bitsh wrth eu reidio - petasan nhw'n caniatáu reidio drosti. Ond gan mai arwydd uniaith, *Cyclists Dismount*, sy' yno, wfft i hwnnw a helter-sgelter amdani!

Mae'r ochr draw wedi newid hefyd. Fama oedd *'Little Ireland'*. Fama oedd calon Newtown, un o'r '*five towns of Cardiff*'. Ardal a fu'n gartref i'r gweithwyr a ddenwyd yma gyntaf ddiwedd yr 1840au gan Ardalydd Bute i adeiladu'r dociau a'r rheilffyrdd, a mwy, maes o law, i weithio'n y dociau, y ffowndrïoedd, a'r ffatrïoedd. Gwyddelod a wthiwyd o'u gwlad pan yrrwyd y werin datws i'r tiroedd gwael, ymylol gan y tirfeddianwyr: gwerin a ddioddefodd yn y Newyn Mawr pan fethodd y cnydau tatws. Miliwn yn marw; dwy filiwn yn ffoi. Balast o bobl oeddent a lenwai'r llongau a ddychwelai i Gaerdydd o Cork a Waterford rôl i rheiny hwylio yno â'r glo a'r nwyddau i fodloni chwant bonedd estron Iwerddon.



***gardd Newtown***

Adeiladodd Bute ardal o resdai ar gyfer y gweithwyr rhwng y rheilffordd newydd, iard Tyndall's Fields, Stryd Tyndall, a ffos ddŵr y Docks Feeder. Gwasgwyd dros 200 o dai i strydoedd Rosemary, Ellen, North William, Pendoylan, a Roland. Yno yn y tai gorlawn datblygodd cymuned glòs, fywiog yn ddiogel yn ei chornelyn – ei *ghetto*. Codwyd Eglwys Gatholig Sant Paul yno yn 1870, ynghyd â thŷ'r offeiriaid ac ysgol. Roedd tafarnau di-ri yno, ond fawr o angen plismon pan fo'r *Fathers* yn arglwyddiaethu a rheoli, yn ôl y sôn.

Erbyn yr 1960au datganodd y Cyngor bod y tai yn slymiau a bod angen eu dymchwel. Chwalwyd y tai a chwalwyd y gymuned; gwasgarwyd y bobl i amrywiol stadau tai newydd cyrion Caerdydd. Dim sôn am eu hailgartrefu yno yn Newtown – lle da i weithdai newydd oedd yr hen dref. Dymchwelwyd yr eglwys yn 1970 – adeiladwyd y Central Link *flyover* dros ac ar ei gweddillion.

Erbyn heddiw gweddnewidiwyd yr ardal eto dan ysgogiad yr hap-ddatblygwyr sydd mor ddylanwadol wrth reibio canol Caerdydd. Yn codi fry mae tyrau o swyddfeydd sgleiniog, smart ochr yn ochr â mwy fyth o dyrau smart o stafelloedd i sdiwdants, ac ambell lain fach o wyrddni (am y tro). Eisoes mae tŵr fflatiau Tŷ Pont Haearn wedi ei ail-frandio'n Liberty Bridge. Mae hyd yn oed y Docks Feeder yn cael ei ddisgrifio'n 'gamlas' â'i '*canalside living*' deniadol. Watshwch chi, bydd Jones Street drws nesa iddi'n troi'n Venice Towers cyn hir. Cewch wneud fel a fynnoch, os 'dach chi'n ddatblygwr clyfar! Ac yn goron ar hyn, gelwir y cwbl yn *Capital Quarter* – be fydd enw'r tri-chwarter arall, tybed?

Ond beicio yma wnes i weld un llecyn bach yr ochr draw i Tyndall Street. Yno mae Gardd Goffa Newtown yn tystio i ddycnwch criw o Wyddelod Cymreig i goffáu hanes *'Little Ireland'* a chofio'u hachau. Plethwaith o waliau isel o gerrig i gynrychioli'r tai diflanedig. Enwau'r teuluoedd a drigai yno'n gofnod ar wyneb y palmant. Ambell fainc garreg i gael eistedd arni i fyfyrio a chofio. A geiriau addas mewn tair iaith wedi'u naddu i gerrig camu'r grisiau:

Darn o'r awdl 'Croeso mewn llys' gan Sypyn Cyfeiliog (Dafydd Bach ap Madog Wladaidd. c1340-1390) yw un dyfyniad - gweler y pennawd.

Geiriau'r Cymro o Wyddel, yr Esgob Daniel Mullins adeg nodi 30 mlynedd ers cau Eglwys Sant Paul yw'r un arall:

*"Iad siúd nach gcuimhníonn ar a sinsir is gearr nach gcuimhneoidh siad ar cé hiad féin"*

"Y sawl sy'n anghofio'i wreiddiau
a anghofia'n fuan pwy ydyw"

Troiais am yn ôl a dilyn Smart Street, croesi'r Smart Bridge a'r meysydd parcio at y carchar gan adael J R Smart's Capital Quarter a reidio at fynwent Cathays. Ar ochr Allensbank mae mannau claddu'r Catholigion. Yno, heddiw, ar safle'r Eglwys Gatholig a ddymchwelwyd yn yr 1980au, mae cofeb a godwyd ac a ddadorchuddiwyd union ugain mlynedd yn ôl, yn 1999. Croes Geltaidd ydyw i gofio am y



Gwyddelod hynny a fu farw yn eu miloedd adeg y Newyn Mawr, am y rhai a ymfudodd i bedwar ban byd, ond yn arbennig y rhai a ddaeth i Gymru ac i Gaerdydd. Er y croeso llugoer a gawsant bu iddynt ennill eu plwy a chyfrannu'n sylweddol i dŵf y lle. "Trostynt hwy y cododd eu disgynyddion y gofeb hon." [gweler http://www.ballinagree.freeservers.com/memorial.html ]

Crafwch wyneb y ddinas a'i brodorion – mae 'na wyrdd yng nghochni'r gwaed. Cyflwynwn yr erthygl hon yn deyrnged i'n cyd-Geltiaid o'r Wlad Werdd. Dydd Sul, Mawrth 17eg, roedd hi'n Ddydd Gŵyl Padrig Sant – diwrnod ar ôl i dimau rygbi Iwerddon a Chymru ymrafael am y Bencampwriaeth. Oddi ar y cae, dyna braf oedd gweld cefnogwyr y ddwy genedl yn cyd-ddyheu ac yna'n cyd-lawenhau!

***Olwyn ap Gronw***

## DYDD GWEDDI'R BYD 2019

*DOBER DAN* oedd y cyfarchiad Slofaneg prynhawn Gwener, Mawrth 1af 2019 i chwiorydd o eglwysi Cymraeg Caerdydd ddaeth at ei gilydd yn Eglwys Salem, Treganna i fod yn rhan o wasanaeth Dydd Gweddi'r Byd. Y diwrnod hwnnw roeddem yn rhannu'r un gweddïau gyda phobl mewn dros 120 o wledydd ac ynysoedd ledled y byd. Ysgrifennwyd y gwasanaeth eleni gan ferched Slofenia, un o'r gwledydd lleiaf ac ieuengaf yn Ewrop ac yn gymharol newydd i fudiad Dydd Gweddi'r Byd.

*'Dewch ymlaen, mae'r wledd yn aros,'* meddai Crist.
*Dewch ymlaen, mae'r bwrdd yn barod.*
*Dewch i'r wledd.*

Roedd clywed y geiriau hyn yn effeithiol iawn wrth i Mared Furnham eu canu yn ddi-gyfeiliant ar gerddoriaeth cân werin Slofaneg i roi i ni brif genhadaeth y gwasanaeth, sef y gwahoddiad agored i BAWB i ddod at fwrdd Duw. Roedd straeon gwragedd, mamau a neiniau, pobl Roma, ffoaduriaid a gweithwyr mudol yn adlewyrchu sefyllfa wleidyddol ac economaidd Slofenia o'r adeg yr oedd yn wladwriaeth sosialaidd-gomiwnyddol hyd at heddiw.

Bu i rai o chwiorydd Salem, Minny Street, Ebeneser ac Eglwys Teilo Sant ein tywys drwy'r gwasanaeth oedd yn ein hatgoffa bod pawb yn werthfawr yng ngolwg Duw, yn arbennig y rhai sy'n wan, yn fregus ac yn ddifreintiedig a'r her i ninnau yw gweithredu'r neges bod pawb yn gyfwerth a bod teyrnas Dduw yn agored i bawb. Mae'r her yno i ni gofio ein cyfrifoldebau i ofalu ac estyn allan at bob unigolyn gan ddiolch am ein bendithion ni.

Dyma fyrdwn grymus y cytgan *Daritev*, ganwyd mor swynol gan grŵp o ferched Minny Street:

'Ein Tad, O clyw ein salm o ddiolch
A chariad llawn am d'ofal di.
Dy deyrnas, Dad, a'th lân ewyllys
Fo'n tanio cân ein c'lonnau ni.'

Diolch yn fawr i Eglwys Salem am eu croeso ac i bawb gymerodd ran. Yn dilyn y gwasanaeth mwynhawyd sgwrs wedyn yn y festri dros baned ac amrywiol gacenni.

*y gwragedd gymrodd ran yn y gwasanaeth*



# JONAH JONES: 'dewin gyda chymaint o wahanol sgiliau'

Rydym yn tueddu i feddwl am Jonah Jones fel cerflunydd gwaith carreg ac efydd e.e. y 2 ffigur efydd maint-llawn o Syr O. M. Edwards a'i fab Syr Ifan ab Owen Edwards yn Llanuwchllyn, portread penddelw o Gwynfor Evans, maen coffa llechen David Lloyd George yn San Steffan, maen coffa llechen werdd Dylan Thomas yn Abaty San Steffan. Fodd bynnag, dangosodd yr arddangosfa Ganmlwyddol ym Mhlas Glyn y Weddw, Llanbedrog ei fod, yng ngeiriau Meic Watts, yn "ddewin gyda chymaint o wahanol sgiliau". Yn ystod Chwefror a Mawrth cafwyd cyfle i weld sampl o'i waith o bob cyfnod o'i fywyd, o ddarluniau dyfrlliw cynnar o'i eiddo, gwaith carreg, gwaith gwydro bendigedig mewn eglwysi ac hefyd y cerflunio mwy haniaethol yn nes ymlaen a'r llythrennu a'r dyfrlliw. Er iddo gael ei eni yn Swydd Durham, bu Jonah Jones yn byw yng Nghymru o 1948. Gofynnodd staff Oriel Plas Glyn y Weddw (yr ardal lle'r oedd Jonah Jones wedi byw a gweithio am gymaint o flynyddoedd) i'r teulu drefnu arddangosfa a fyddai'n dangos amrediad o'i greadigaethau.

Roedd Jonah Jones 'wedi dewis Cymru' ac roedd yn ystyried ei hun yn Gymro, gan fagu ei blant (David, Peter a Naomi) gyda'i wraig yr awdur Judith Maro, yn Gymry Cymraeg. Peter roddodd y sgwrs ddarluniadol ar waith ei dad yn dilyn agoriad swyddogol yr arddangosfa ym Mhlas Glyn y Weddw. Basai'n braf iawn petai amrywiol gymdeithasau Cymraeg Caerdydd a'r Fro yn manteisio ar gael cyflwyniad o yrfa Jonah Jones gan Peter, sy'n byw yn Llandaf ers nifer o flynyddoedd.

*Yn y llun gyda rhan o gerflun enwog Y Bont (gomisiynwyd gan Goleg Harlech) mae: Iwan Hughes a Nia Roberts, Plas Glyn-y-Weddw; Robin Llywelyn, Portmeirion; Naomi, Peter, Meic Watts, oedd yn brentis ac yn ffrind i Jonah, David, David Sherlock, oedd yn ddirprwy i Jonah yn Nulyn a Gwyn Jones, Cyfarwyddwr Plas Glyn-y-Weddw.*



jrogersjonesco Est 1992
AUCTIONEERS AND VALUERS
CWMNI ARWERTHWYR A PHRISWYR

17 Ystad Masnachu Llandochau,
Heol Penarth, Caerdydd, CF11 8RR /
33 Ffordd Abergele, Bae Colwyn, LL29 7RU
Ffon: 029 20 708 125 & 01492 532 176



# Bwytai Merch y Ddinas

*"yma mae bwydlen fin nos sy'n cynnig blasau'r fro"*



**Lowri Haf Cooke**

Llongyfarchiadau mawr i Ceri a John Cook ar eu menter newydd sbon yn Yr Hen Lyfrgell. Bob nos Wener a nos Sadwrn mae nhw'n agor y drysau ar fwyty go wahanol o'r enw Ember. Bu'r ddau wrth galon y byd coginio Cymreig yng Nghaerdydd ers agor bwyty Arbennig ym Mhontcanna. Ond ers cau'r bwyty hynny (lle saif Heaney's erbyn hyn), ehangwyd eu 'portffolio' cogyddol yn sylweddol. Gellir dadlau y bu'r Cooks ar flaen y gad i bawb arall wrth fentro arbrofi ym myd anwadal bwytai'r ddinas.

Yn enedigol o Fanceinion, magwyd John ym Mhenybont, gan ddechrau gweithio yn bymtheng oed yng Nghoed y Mwstwr. Fe'i drwythwyd yn nulliau coginio clasurol, cyn symud i fwyty hamddenol Oscars y Bontfaen. Nawr dyna oedd lle dymunol am Bloody Mary gyda'ch 'brynsh', ac agorwyd cangen lle safodd Le Gallois. Trodd hynny, yn 2013 yn fwyty cyfoes Cymreig Arbennig, a ddenodd ddilynwyr o bell ac agos.

Rwy'n cofio ngwledd gyntaf yno yn 2013, cranc ffres o Borthgain, hwyaden, a sorbet mefus. Roedd pob blas yn ffrwydriad o brofiad, a'r pwyslais ar gynhwysion Cymreig gorau'r tymor. Roedd croeso cynnes Ceri hefyd yn rhan fawr o'r profiad, wrth sicrhau fod pawb yn mwynhau. Ond wrth i fwytai Caerdydd agor a chau fel tro'r trai, bu'n rhaid addasu er mwyn goroesi yn y ddinas.

Cyn gwerthu i Tommy Heaney yn 2018, roeddent eisioes wedi ymddiddori yn y maes coginio llysieuol. Union flwyddyn yn ôl, lansiwyd eu busnes pop-up DIRT, wrth grwydro o fan i fan – fel Dusty Knuckle yn Nhreganna a Llaeth a Siwgwr.




Ar ben hynny, mae Hoof - eu stondin 'bwyd y stryd' - yn atynnu cig-garwyr Caerdydd rif y gwlith. Sawrais eu byrger eidion sbawd frith (feather blade) cyn Nadolig yn Sticky Fingers, yn ardal yr Hen Fragdy, saethodd yn syth i frig fy siart 'byrgers gorau'r ddinas'! Yn ogystal, mae Ceri yn gyd-reolwraig ar dafarn fwyd The Lamb and Flag yn Y Wig ym Mro Morgannwg. Ar ben popeth, ar y cyd â Phil Lewis (Dusty Knuckle), trefnodd John ŵyl fwyd tra llwyddiannus Bite Cardiff yng Nghwrt Insole yng Ngorffennaf y llynedd.

Dim ond 38 oed yw John, ond mae e'n dal yn llawn syniadau, ac mae Ember – y diweddaraf – yn gyfuniad da o'i holl fentrau blaenorol. Y seren ar y fwydlen yw'r cig eidion Cymreig, darn o sirlwyn sy'n toddi yn y geg. Ces flas anhygoel ohono yn y lansiad ar ddiwedd mis Mawrth; does dim amheuaeth y bydda i nôl i sglaffio platiad cyfan, gaiff ei weini â saws marmite a choffi, yn gyforiog o flasau umami. Yn bresennol yn y lansiad, ynghyd â'r artist, oedd 'pensaer' y campwaith cigyddol – Martin Player, y cigydd gwobrwyol o'r Eglwys Newydd. Fe sychodd y cig eidion am 55 diwrnod, gan arwain at flas oedd oddi ar y raddfa.


Ceir hefyd yn Ember fwydlen llwyr lysieuol, fydd yn newid o fis i fis i adlewyrchu blasau gorau pob tymor. Brocoli piws oedd y seren ar ddiwedd mis Mawrth, ynghyd â chwa gwanwynaidd garlleg gwyllt. Ac i bwdin? Tryffl siocled gyda charamel dail llawryf (bay leaf), ynghyd â hufen a chnau cyll (hazelnut).


Dyma fwydlen fin nos sy'n cynnig blasau'r fro i gystadlu â Heaney's, The Heathcock a Milkwood. Mae'n ychwanegiad anrhydeddus i sîn bwytai canol y ddinas, felly ewch yno i'w brofi, da chi.

**Ember, Llaeth & Siwgwr, Yr Ais, Caerdydd CF10 1BH (nos Wener a Sadwrn yn unig)**

***Bwytai Cymru* a *Canllaw Bach Caerdydd* gan Lowri Haf Cooke (Gwasg Gomer), £9.99 yr un.**

## Rhif: 190



### Ar Draws

7. Gweithio yn Los Angeles a'r cylch (5)
8. 'Yr ----- mawr a'r cangarŵ
   I mewn i'r arch â nhw' (7)
9. Gwneud gwledd o'r eithin gwyllt (7)
10. Dychwel siart y gorthrwm (5)
12. '----- dirgelion i maes
    Dirgelion cuddiedig i'r byd' (WW) (10)
15. Gofal am gawr doethach mewn dryswch (10)
18. Segurdod yw dringo'r grib ar yn ail (5)
19. Tad arall yn troi at ddwyn (7)
21. Dai yn cefnu ar y cywair mewn curiad (7)
22. Ffoli ar wneud marciau bach? (5)

### I Lawr

1. 'Ie, pe rhodiwn ar hyd ----- ----- angau, nid ofnaf niwed' (Salmau) (4,6)

2+11. 'Daw ----- yn ei dro,
A chydag ef fe ddaw
Disymwth wenau haul
A ----- ----- law' (JCH) (5,5,5)

3. Gofyn cwestiwn yn yr ymholiad (4)
4. Cael meini o acer rigolog (6)
5. Cadair a lle i sawl un wylio'r gêm (8)
6. 'Craig ----- mewn tymhestloedd,
   Craig a ddeil yng ngrym y lli' (SJG) (7)
11. gweler 2 lawr
13. Ar ôl i chwi droi cewch edrych y cynnwys (8)
14. Yn y clochdar o Ganada mae proffwydoliaeth (7)
16. Gwisgo amdanaf gymysgedd y llaid du (6)
17. Digalonni ar ddiwedd diwrnod gyda dyn anonest, digroeso (5)
20. Rhiant i 50 mewn ymryson (4)

**Enillydd Croesair Rhif 188**

**Mair Robins, Yr Eglwys Newydd**

**Atebion Croesair Rhif 188**

**Ar Draws:** 1.Cut 3. Inc 5. Cnawd 8. Linell 9. Cyfalaf 10. Llanddewi Brefi 12. Oedran 14. Edwino 17. Côr y gleision 21. Unig Oen 22. Eurig 23. Triog 24. Nai 25. Iâr

**I Lawr:** 1. Celu 2. Tynfa 3. I'r lladdfa 4. Ciciwch 5 Cofeb 6. Arloesi 7. Difrifol 11. Bonclust 13. Direidi 15. Distewi 16. Tennyn 18. Groeg 19. Oerni 20. Agor

Danfonwch eich atebion at Rhian Williams
erbyn 5 Mai, 2019
22 Heol Cae Rhys, Rhiwbina, Caerdydd, CF14 6AN

# Gŵyl Radur

Mae na naws Gymreig iawn i Ŵyl Radur a Threforgan eleni sy'n rhedeg o Fai 4ydd i Fai 19eg. Y ddau ddigwyddiad trwy'r Gymraeg fydd sgwrs gan y nofelydd Jon Gower ar 'Byw trwy Lyfrau'. Mae Jon wedi llenwi hanner silff gyda llyfrau sy'n cynnwys *Y Storïwr* wnaeth ennill Llyfr y Flwyddin yn 2012 a *The Story of Wales*. Bu'n ohebydd celfyddydau a chyfryngau'r BBC am rai blynddoedd. Hen Ysgoldy'r Eglwys, Radur am 7.30 nos Fawrth 7ed o Fai.

Bydd Cwmni Cwm Ni, Caerffili, yn ymweld â Neuadd y Pentre, Treforgan nos Wener, 17eg o Fai i gyflwyno eu cynhyrchiad diweddaraf. Eleni maent yn mentro ar y gomedi *Y Gwcw* a gyfieithwyd gan Ben Jones. Hon yw'r noson y bydd beirniaid cystadleuaeth actio drama fer Eisteddfod Genedlaethol, Llanrwst, yn dod i gynnal rhagbrawf.

Caiff Ben Raynor andros o sioc o ddeall ei fod yn rhannu ei fflat gyda merch ddeniadol ifanc o'r enw Devra. Ond maen nhw wedi bod yn rhannu ers tri mis, a hynny heb yn wybod i Ben! Wrth i'r ddrama fynd yn ei blaen gwelwn fod gan Devra bŵerau hudol. Ac i gymhlethu pethau ymhellach, does neb ond Ben yn gallu ei gweld. Mae ei phŵerau yn ei galluogi i newid bywydau Ben a'i gyn-wraig Hilary. Mae effaith y digwyddiadau yn achosi dryswch i ffrind Ben, Gwilym, P.C. Pullen a'r gyfreithwraig Miz Birchall. Fel y gallwch ddychmygu, mae'r holl gamddealltwriaeth yn cyfuno i greu comedi ddoniol dros ben. Nos Wener 17eg o Fai am 7.30. Neuadd y Pentre, Treforgan.

Tocynnau i'r ddau ddigwyddiad £4.

Ymhlith y digwyddiadau eraill fydd perfformiad o ddrama Emlyn Williams, *Night Must Fall*, gan y cwmni proffesiynol dalentog o Abertawe, Fluellen; Neuadd y Pentre, Treforgan, 7.30 Nos Fercher 8ed o Fai; ymweliad gan y cogydd, Beca Lyn-Perkis, sydd â chyfres ar S4C, llyfr *Bwyd Beca* ac roedd yn y rownd derfynnol o *The Great British Bake Off*. Nos Fercher 15ed o Fai, Hen Ysgoldy'r Eglwys, Radur; a cyngerdd awr ginio gan y delynores dalentog o Gwm Rhymni, Eleri Darkins, Eglwys Methodistiaid Radur, 17eg o Fai am 1o.g.

Tocynnau a mwy o fanylion gan Allan Cook:
029 2084 3176.

# Y DIGWYDDIADUR

## Ebrill

**Mawrth, 9 Ebrill**
Merched y Wawr, Cangen Caerdydd. Bydd Yvonne Evans yn sgwrsio am ei phobl a'r tywydd, yn neuadd Eglwys Fethodistaidd Cyncoed (ar y gornel rhwng Westminster Crescent a Heol Cyncoed), am 7.30pm. Croeso cynnes i bawb.

**Mercher, 10 Ebrill – Sadwrn, 13 Ebrill**
Theatr Genedlaethol Cymru yn cyflwyno 'Merched Caerdydd' gan Catrin Dafydd a 'Nos Sadwrn o Hyd' gan Roger Williams, yn Stiwdio Weston, Canolfan Mileniwm Cymru, am 7.00pm. Tocynnau: £12. Manylion pellach: 029-2063-6464.

**Iau, 11 Ebrill**
Cylch Cinio Merched Caerdydd yng Nghlwb Golff Radur am 7.00pm ar gyfer 7.30pm. Gŵr gwadd: Arfon Haines Davies. Croeso cynnes i bawb. Am fanylion pellach, cysylltwch â'r Llywydd, Carys Tudor Williams (07958-265215 neu glyn.carys@btinternet.com).

**Sadwrn, 13 Ebrill**
Bore coffi rhwng 10.30 a 12.00 ar gyfer rhai sydd am ymarfer eu Cymraeg, yn adeilad yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg, Harriet St, Cathays, CF24 4BX. Croeso i ddysgwyr ac i siaradwyr rhugl. Am 11.00am bydd sgwrs gan Arfon Jones ar y testun 'Cristnogaeth a Chymru'. Yr un amser bydd dosbarth Cymraeg ar gyfer dechreuwyr dan arweiniad Amanda Griffiths. Mynediad am ddim: croeso cynnes i bawb.

**Llun, 15 Ebrill**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina. Sgwrs gan Bethan Rhys Roberts ar y testun 'Newyddiadura', yng Nghapel Bethel, Maesyderi, am 7.30pm.

**Mawrth, 16 Ebrill**
Cymrodorion y Barri.
Noson flodeuog yng nghwmni'r Parch. Kevin Davies, yn festri'r Tabernacl, Sgwâr y Brenin, Y Barri, am 7.15pm. Paned i ddechrau. Croeso cynnes i bawb.

**Mercher, 24 Ebrill**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd. Prynhawn o gerddoriaeth gan fyfyrwyr Academi Llais Ryngwladol Cymru (*Live Music Now*), yn festri Capel Minny Street am 2.00pm.

**Gwener, 26 Ebrill**
Cylch Cadwgan. Bydd Ioan Kidd yn siarad ar y testun 'Cysgodion Cam', yn Festri Bethlehem, Gwaelod-y-garth, am 8.00pm.

## Mai

**Mercher, 1 Mai**
Merched y Wawr, Cangen Bro Radur. 'Fy hoff drysor…' yng nghwmni nifer o aelodau'r gangen, gyda'r Cyfarfod Blynyddol i ddilyn. Cynhelir y cyfarfod yn festri Capel y Methodistiaid Saesneg, Ffordd Windsor, Radur, am 7.30 pm.

**Sadwrn, 4 Mai**
Gŵyl Wanwyn Merched y Wawr Rhanbarth y De-Ddwyrain yng Nghwrt Insole, Llandaf, am 2.30pm. Adloniant gan Ann (telyn) a Mehefin (acordion) a the pnawn i ddilyn. Tocyn: £5 – ar gael gan Ruth Davies (029-2221-1407) neu Ann Lewis (029-2056-4339).

**Mercher, 8 Mai**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd. Taith y Gwanwyn.

**Sadwrn, 11 Mai**
Bore coffi rhwng 10.30 a 12.00 ar gyfer rhai sydd am ymarfer eu Cymraeg, yn adeilad yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg, Harriet St, Cathays, CF24 4BX. Croeso i ddysgwyr ac i siaradwyr rhugl. Am 11.00am bydd y Parch. Emyr James yn trafod ei hoff emyn. Yr un amser bydd dosbarth Cymraeg ar gyfer dechreuwyr dan arweiniad Amanda Griffiths. Mynediad am ddim: croeso cynnes i bawb.

**Sadwrn, 11 Mai**
Cyngerdd i ddathlu pen-blwydd Côr Philharmonig Caerdydd yn 40 oed, yn Eglwys Dewi Sant, Cilgant Sant Andreas, am 7.30pm. Perfformir *Requiem* Mozart yn ogystal â gwaith gan Eric Jones a Christine James a gomisiynwyd yn arbennig ar gyfer yr achlysur.

**Sadwrn, 11 Mai**
OPRA Cymru yn perfformio cyfieithiad Mererid Hopwood o *Fidelio* gan Beethoven yng Nghanolfan y Celfyddydau Memo, Gladstone Road, Y Barri, am 7.30pm. Manylion pellach: 01446-783622.

**Llun, 13 Mai**
Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd, yng Ngwesty 'Rhif 10 Caerdydd' (Jolyons, gynt), 10 Ffordd y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ, am 7.00pm ar gyfer 7.30pm. Gwestai: Ann Beynon. Croeso i ymwelwyr o gylchoedd cinio eraill. Os am archebu pryd o fwyd, dylid cysylltu â'r Ysgrifennydd, Ruth Davies, ar billd.d2@tiscali.co.uk neu ffonio 029-2221-1407 yr wythnos cynt.

**Mawrth, 14 Mai**
Merched y Wawr, Cangen Caerdydd. Noson Dysgwyr a Chyfarfod Cyffredinol, yn neuadd Eglwys Fethodistaidd Cyncoed (ar y gornel rhwng Westminster Crescent a Heol Cyncoed), am 7.30pm. Croeso cynnes i bawb.

**Sadwrn, 18 Mai**
Coffi a chlonc i ddysgwyr yn Eglwys Dewi Sant, Cilgant Sant Andreas, Caerdydd, CF10 3DD, rhwng 10.30 a 12.00. Mae croeso i chi ddod am baned ac i sgwrsio.

**Llun, 20 Mai**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina. Cyngerdd yng Nghapel Bethel, Maesyderi, am 7.30pm. Tâl mynediad: £5.

**Llun, 20 Mai**
Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd. Sgwrs gan Derith Rhisiart (Synergy Cymru) ar y testun 'Gwirionedd'. Yn Ystafell 0.77 ym Mhrif Adeilad Prifysgol Caerdydd, Parc Cathays, am 7.30pm. Croeso i bobl nad ydynt yn 'arbenigwyr' gwyddonol.

**Mercher, 22 Mai**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd. 'Brethyn Cartref', yn festri Capel Minny Street am 2.00pm.

**Sadwrn, 25 Mai**
Cymdeithas Carnhuanawc.
Ymweliad â Merthyr Tudful. Cyfarfod ger Gorsaf Drenau Merthyr. Manylion pellach: llanisien-carnhuanawc@yahoo.co.uk.

## Digwyddiad Wythnosol

Cynhelir cwis dwyieithog (yr unig un yng Nghaerdydd) **bob nos Lun** yn nhafarn 'Bragdy a Chegin', Pontcanna ('Y Mochyn Du' gynt) am 8.00pm. £1 yr un.
Gwobr: casgen fach o gwrw'r dafarn. Cwisfeistr: Dewi Tsips. Dewch yn llu!

**I anfon gwybodaeth i'r Digwyddiadur gweler manylion ar dud. 2**

# Crys Rygbi Enwog

Ar Ddydd Gŵyl Dewi eleni, gwerthodd cwmni arwerthwyr Rogers Jones, sydd â stafelloedd gwerthu yng Nghaerdydd a Bae Colwyn, grys rygbi rhyngwladol am £39,000. Mae'n rhaid bod Dewi Sant ei hun wedi gwisgo'r crys hwn, meddech chi!

Wel, na, yn ôl pob golwg. Credwch neu beidio, doedd y crys ddim hyd yn oed yn grys Cymru! Un o grysau tîm Seland Newydd o 1905 a wisgwyd gan y chwaraewr Hubert Sydney 'Jum' Turtill oedd y crys hanesyddol. Cyflwynwyd y crys i'r arwerthiant gan or-ŵyr 'Jum', ynghyd â'i gapiau a lluniau. Dim ond un cap a enillodd Jum i'r Crysau Duon, oherwydd iddo benderfynu newid i chwarae Rygbi Cynghrair, gan chwarae am y rhan fwyaf o'i yrfa i glwb St Helens yn Sir Gaerhirfryn. Yn drist iawn, yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf, ac yntau'n 38 mlwydd oed, ymunodd Jum â'r fyddin ac fe'i lladdwyd yn Ffrainc yn ystod blwyddyn olaf y rhyfel.

Mae crys Crysau Duon Jum yn dyddio'n ôl i'r un flwyddyn â chrys Seland Newydd arall a werthodd y stafell arwerthu yn ôl yn 2015. Gwisgwyd y crys hwnnw gan Dave Gallaher, sef capten tîm y Crysau Duon cyntaf i fynd ar daith, ac fe'i gwisgodd yn ystod eu gêm enwog yn erbyn Cymru yng Nghaerdydd (Cymru a enillodd). Roedd Gallaher yn cael ei ystyried yn arwr ym myd rygbi Seland Newydd. Roedd yntau'n un a ymunodd â'r fyddin ac a fu farw yn y Rhyfel Byd Cyntaf. Gwerthwyd crys Dave Gallaher drwy gwmni Rogers Jones am £180,000.

*Mererid Wigley*



***crys, cap a lluniau o eiddo Hubert Sydney 'Jum' Turtill***

## OPRA *Cymru*

Mae 2019 yn nodi 10 mlynedd ers sefydlu OPRA Cymru: unig gwmni opera Cymraeg y byd sy'n gweithredu o Flaenau Ffestiniog yng nghanol Gwynedd.

Mae'r cwmni yn creu fersiynau Cymraeg o operâu clasurol, ac yn 2017 cynhyrchwyd opera newydd - gwaith newydd gan y cyfansoddwr o Ynys Môn, Gareth Glyn, a'r prifardd Mererid Hopwood, yn seiliedig ar y nofel enwog, *Wythnos yng Nghymru Fydd*.

Y gwanwyn hwn, mae'r cwmni yn cydweithio unwaith eto gyda Mererid Hopwood i greu cynhyrchiad Cymraeg o unig opera Beethoven, sef, *Fidelio*; stori dynes ddewr sy'n gwisgo amdani fel gwarchodwr carchar i geisio achub ei gŵr sydd wedi ei garcharu yno ar gam.

Ymhlith y cast mae'r soprano Catrin Aur a'r tenor Adam Gilbert, a grŵp o gantorion ifanc o Ogledd Cymru: Robin Gruffudd, Huw Ynyr, Thomas Niesser ac Elen Lloyd Roberts. Cyfeilir y perfformiadau gan gerddorfa siambr dan arweiniad Iwan Teifion Davies (o Sir Benfro), a byddant yn cynnwys nifer o gorau amatur. Cynhelir perfformiad cyngerdd arbennig ym Mlaenau Ffestiniog i ddathu pen-blwydd y cwmni yn ei dref enedigol, a chyflwynir y gyngerdd gan y darlledwr o fri Hywel Gwynfryn.

Perfformir yng Nghanolfan y Celfyddydau Memo, Barri ar 11 Mai, 2019.